

Trivallis.

Adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol

20²⁴/₂₅



www.trivallis.co.uk

Trivallis ydym ni

Cymdeithas dai elusennol yw Trivallis sy'n cynnig tai fforddiadwy a gwasanaethau i deuluoedd ac unigolion yn Rhondda Cynon Taf a Bae Caerdydd.

Rydym yn rheoli dros 10,000 o eiddo, gan ddarparu cartrefi i oddeutu 25,000 o bobl, ynghyd â gwasanaethau cymorth tenantiaeth o ansawdd uchel. Rydym yn brif gyflogwr ac yn gweithio gyda chontractwyr lleol sy'n rhannu ein hymrwymiad i wella lles ein cymunedau a'n preswylwyr.



**25,000
o bobl**



**10,000
o eiddo**

Rydym yn llawer mwy na landlord yn unig. Rydym yn gweithredu fel Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol.

- Ein tenantiaid sy'n berchen arnom.
- Gweithio ar y cyd rhwng tenantiaid, staff a phartneriaid lleol.
- Gwreiddiau dwfn yn ein cymunedau.
- Cynnwys y bobl y mae ein penderfyniadau'n effeithio arnynt.

Cynnwys

Uchafbwyntiau perfformiad yn 2024/25.....	4
Ein gwerthoedd.....	5
Ein blaenoriaethau craidd.....	6
Gwybodaeth gyfreithiol.....	7
Datganiad gan Gadeirydd y Bwrdd.....	8
Datganiad gan y Prif Weithredwr.....	9
Adroddiad effaith.....	11
Ein cartrefi – darparu cartrefi a lleoedd o safon.....	11
Ein gwasanaethau – trawsnewid profiad tenantiaid.....	16
Ein cymunedau – grymuso pawb a dylanwadu ar newid.....	22
Ein pobl – cefnogi a thyfu ein cydweithwyr.....	27
Ein systemau data a digidol	32
Gwerth am arian	34
Perfformiad ariannol.....	39
Rheoli trysorlys.....	41
Llywodraethu.....	43
Y Bwrdd.....	46
Y tîm gweithredol.....	50
Llywodraethu corfforaethol.....	52
Asesiad rheoleiddiol.....	52
Adroddiad y Pwyllgor Sicrwydd.....	53
Rheoli risg.....	54
Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd.....	56
Datganiad rheolaeth fewnol.....	57
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Trivallis Limited.....	64

Uchafbwyntiau perfformiad yn 2024/25

2023/24 77% 2024/25 77%



Bodddhad gyda Trivallis

2023/24 84% 2024/25 84%



Bodddhad gydag atgyweiriadau

2023/24. £35.5 miliwn 2024/25 £37.7 miliwn



Cyfanswm y buddsoddiad a wnaed yn ein cartrefi presennol

2023/24 281 2024/25 76



Achosion lleithder a llwydni byw

2023/24 20.2 2024/25 14.9



Dyddiau i gwblhau atgyweiriad ar gyfartaledd

2023/24 76.2% 2024/25 86%



Atgyweiriadau wedi'u cwblhau ar amser (pob atgyweiriad)

2023/24 99.3% 2024/25 99.5%



Cydymffurfiaeth statudol

2023/24 £3.6miliwn 2024/25 £5.4 miliwn



Incwm ychwanegol ac arbedion wedi'u sicrhau i denantiaid drwy wasanaeth Cyngor Ariannol

2023/24 3.3% 2024/25 2.8%



Ôl-ddyledion tenantiaid

2023/24 1,654 2024/25 1,487



Pobl sy'n cael eu cefnogi drwy ein rhaglenni cymorth lles

2023/24 76% 2024/25 91%



Datrys galwadau Canolfan Gyswilt ar y cyswilt cyntaf

2023/24 92% 2024/25 95%



Achosion ASB wedi'u datrys dros y flwyddyn

Ein gwerthoedd

01. Dibynadwy

Dibynadwyedd yw un o gonglfeini ein diwylliant. Mae ymddiriedaeth nid yn unig yn rhywbeth rydym yn ceisio ei hennill gan ein tenantiaid, ein cydweithwyr, a'n cymuned; mae'n werth rydym yn ei arddangos yn ein holl weithredoedd a rhyngweithiadau hefyd.

02. Caredig

Mae caredigrwydd wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud. Drwy fod yn garedig wrth rhyngweithio o ddydd i ddydd, credwn ein bod yn creu amgylchedd cefnogol a thosturiol i'n tenantiaid, ein cydweithwyr a'n cymuned.

03. Blaengar

Rydym yn diffinio cynnydd fel ymrwymiad diysgog i ddysgu, arloesi, ac addasu'n barhaus. Rydym yn cymryd camau pendant i geisio cyfleoedd i wella, croesawu newid, ac annog datblygiad ein cydweithwyr, gan arwain y ffordd bob amser.

04. Cynhwysol

Rydym yn credu mewn diwylliant o gynwysoldeb sy'n gwerthfawrogi safbwyntiau, anghenion, a chyfraniadau unigryw pob unigolyn. Rydym yn ymrwymo i drin pob aelod o staff a thenant gyda pharch, gan groesawu amrywiaeth, a chymryd camau pendant i geisio mewnbwn gan bob rhan o'n cymuned.

Dibynadwy
Blaengar
Cynhwysol
Caredig

Ein blaenoriaethau craidd

Landlord gwyh: Darparu gwasanaethau landlord rhagorol a chyflawni yn unol â safonau eithriadol.

Cyflogwr gwyh: Rydym yn ymdrechu i fod yn gyflogwr o ddewis, gan gynnig cyfleoedd rhagorol, gweithle cefnogol, ac amodau teg i'n staff a'n gwirfoddolwyr. Rydym yn ymrwmo i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a darparu cymorth a hyfforddiant i wirfoddolwyr.

Canolbwyntio ar gynaliadwyedd: Rydym yn gwneud penderfyniadau sy'n cefnogi sefydlogrwydd ariannol tymor hir ein sefydliad ac yn gweithio i leihau ein heffaith ar yr hinsawdd. Rydym yn gweithio gyda phreswylwyr i leihau effaith ar newid yn yr hinsawdd o fewn cymunedau gymaint â phosibl.

Ymrwymedig i gynhwysiant: Mae diwylliant ein cwmni yn gynhwysol ac yn groesawgar. Rydym yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch wrth wneud penderfyniadau, darparu gwasanaethau, recriwtio a rheoli.

Trechu Tlodi: Rydym yn cydnabod effaith tlodi yn ein cymunedau ac yn cymryd camau pendant i weithio i'w leihau drwy ymdrech tîm gyda phartneriaid a chymunedau.

Dysgu'n barhaus: Rydym yn gwerthfawrogi dysgu parhaus, yn annog cyflogeion i gaffael gwybodaeth a sgiliau newydd, ac yn hyrwyddo diwylliant o fod yn agored, cydweithio, ac arloesi. Rydym yn dysgu o'n profiadau ein hunain, ein cymunedau, ac yn ceisio syniadau da o fannau eraill i wella ein sefydliad.



Gwybodaeth gyfreithiol

Rhif Cofrestru Llywodraeth Cymru L143, Rhif Cofrestru Cymdeithas Budd Cymunedol 30261R.

Cymdeithas Gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

Cyfeiriad cofrestredig: Trivallis, Tŷ Pennant, Mill St, Pontypridd CF37 2SW.

Ysgrifennydd y Cwmni

Lisa Pinney

(Penodwyd ar 01/06/2023)

Tîm Arweinyddiaeth Weithredol

Duncan Forbes,

Prif Weithredwr

(Penodwyd ar 01/07/2022)

Keiron Montague,

Cyfarwyddwr Gweithredol Cymunedau

(Penodwyd ar 09/03/2022)

Lisa Pinney,

Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau

(Penodwyd ar 01/05/2023)

Kate Jones,

Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl

(Penodwyd ar 01/04/2024)

Louise Attwood,

Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu

(Penodwyd ar 21/10/2024)

Banc

Lloyds Bank plc, Market Square,

Pontypridd, CF37 2TF

Cyllidwyr

Lloyds Bank plc, 25 Gresham Street,

Llundain, EC2V 7HN

Principality, 93/94 Stryd y Taf,

Pontypridd CF37 4SL

Archwilydd Allanol

Menzies LLP, 5ed Llawr Tŷ Hodge, 114-

116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1DY

Archwilydd Mewnol

Mazars LLP, 45 Church Street,

Birmingham, B3 2RT.

Is-gwmnïau:

Cardiff Bay Homes LLP OC391633

Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr
(Gweithredol)

Porthcwlis Limited 07994420

Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr
(Segur)

Tricwm Limited 16198157

Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr
(Segur)



Datganiad gan Gadeirydd y Bwrdd

Nick Beckett



Croeso i'n hadroddiad blynyddol ar gyfer 2024/25. Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau ei ddarllen gan ei fod yn adlewyrchu blwyddyn o welliant parhaus i Trivallis. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi ailstrwythuro ein cyllid i sicrhau y bydd gennym gyllid ar gael yn y dyfodol i gefnogi ein cynlluniau parhaus i adnewyddu ein heiddo hŷn, yn ogystal â chefnogi adeiladu cartrefi newydd. Mae hyn eisoes ar y gweill gyda rhaglen ddatblygu uwch yn cael ei chyflwyno eleni a pharhad ein rhaglen cynnal a chadw arfaethedig i wneud ein cartrefi yn fwy effeithlon yn thermol, gan arwain at lai o filiau ynni i'r tenantiaid.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi adolygu sut rydym yn darparu ein gwasanaethau i denantiaid a phreswylwyr, gan eu rhoi wrth wraidd ein gweithgareddau. Mae eu cyfranogiad, eu hadborth a'u hymroddiad wedi bod yn allweddol i ffurfio ein hymagwedd a gwella ansawdd ein gwasanaethau. Eu lleisiau nhw sy'n llywio ein penderfyniadau a'n hysbrydoli i wneud yn well bob dydd.

Rydym yn parhau i ddathlu ymrwymiad ein staff, ac mae eu hymrwymiad i Trivallis ac, yn bwysicach, i'n tenantiaid yn fy rhyfeddu bob amser. Mae ein cydweithwyr ymroddedig a'n henw da cadarnhaol wedi denu mwy o ddiddordeb gan bobl ddawnus sy'n awyddus i ymuno â'n sefydliad. Mae'r mewnlifiad hwn o dalent yn addewid i'r sefydliad a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Yn fy rôl fel Cadeirydd, rwyf wedi gweld y ffordd y mae'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddatblygu ein heffaith yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae'r trafodaethau ym mhob cyfarfod Bwrdd yn blaenoriaethu llesiant ein tenantiaid a'n staff yn gyson, sy'n pwysleisio ein hymrwymiad i brosesau gwneud penderfyniadau cynhwysol.

Hoffwn ddiolch i'r Bwrdd am eu cefnogaeth barhaus ac, yn arbennig, i Mark Richards a gymerodd rôl y Cadeirydd yn ystod fy absenoldeb diweddar. Sicrhaodd ei ymrwymiad a'i arweinyddiaeth fod ein cynnydd yn aros ar y trywydd iawn.

Rwy'n gyffrous am y cyfeiriad ar gyfer y dyfodol a hoffwn ddiolch i'n rhanddeiliaid, tenantiaid a phreswylwyr a staff am y gwaith hynod werthfawr y maent yn ei wneud. Wrth i ni fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau, rwy'n hyderus y bydd y partneriaethau rydym wedi'u gweld yn datblygu eleni yn parhau i ffynnu.

Gyda'n gilydd, byddwn yn ymdrechu i greu cartrefi a chymunedau lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u grymuso i ffynnu.

Datganiad gan y Prif Weithredwr

Duncan Forbes



Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o fwrlwm, twf a thrawsnewid anhygoel. Rydym wedi cymryd camau beiddgar i ddatblygu ein diwylliant a hogi ein ffocws strategol, gan roi tenantiaid a chymunedau wrth wraidd popeth a wnawn. Gydag eglurder a phwrrpas ffres, fe wnaethom lansio mentrau sefydliad gyfan sydd wedi newid yn sylfaenol sut rydym yn meddwl, gweithio a chydweithio, gyda'n gilydd a chyda'r bobl rydym yn eu gwasanaethu.

Rydym wedi ailstrwythuro timau allweddol, cofleidio technolegau newydd i symleiddio ein gwaith ac wedi gwneud datblygiad cymunedol yn sbardun yn ein strategaeth. Mae'r newidiadau hyn eisoes wedi dechrau darparu canlyniadau diriaethol ac wedi gosod y sylfaen ar gyfer effaith hirdymor.

Bu'r broses o drawsnewid ein gwasanaeth atgyweirio yn llwyddiant amlwg. Mae tenantiaid wedi gwneud cyfraniad gwirioneddol at y daith hon. Mae'r Gweithgor Atgyweirio – partneriaeth ysbrydoledig rhwng tenantiaid a staff – wedi chwyldroi'r hyn y mae atgyweiriadau yn ei olygu i'n sefydliad. Gyda'n gilydd, rydym wedi

symud o fodel trafodion i gydgenhadaeth wedi'i seilio ar ymddiriedaeth, tryloywder a chamau gweithredu. Mae'r ymdrech gydweithredol hon wedi llywio Polisi Atgyweiriadau newydd, gwella blaenoriaethu, lleihau ôl-groniadau a gwella boddhad cwsmeriaid. Mae'r effaith yn siarad drosti'i hun: ym mis Rhagfyr 2024, cydnabu Housemark ni fel un o'r 10% o landlordiaid sydd wedi gwella fwyaf yn y DU o ran atgyweiriadau.

Rydym hefyd wedi cymryd camau mawr yn y ffordd rydym yn cefnogi pobl a lleoedd. Mae ein tîm Tai Cymunedol newydd, a anwyd o ailstrwythuro strategol y tîm cymdogaethau, yn gam beiddgar ac arloesol ymlaen. Wedi'i gynllunio i adeiladu cysylltiadau cryfach a darparu cefnogaeth gofleidiol, mae'r model newydd hwn yn manteisio ar yr arferion gofal cymdeithasol gorau. Mae timau amlddisgyblaethol bellach yn gweithio ochr yn ochr â thenantiaid, gan gynnig cymorth wedi'i deilwra ar draws tenantiaeth, llesiant, bywyd cartref a chysylltiad cymunedol. Mae'r newid hwn o ddarparu gwasanaethau adweithiol i ddull rhagweithiol sy'n seiliedig ar berthynas yn gyntaf yn arloesol i Gymru, ac rydym yn falch o fod yn arwain y ffordd.

Mae ein gwaith datblygu cymunedol wedi bod yn ysbrydoledig. Eleni, rydym wedi gweld trawsnewidiad pwerus – gan droi stigma yn falchder, a brwydr yn gyfranogiad. Drwy weithio law yn llaw â thenantiaid a phreswylwyr, rydym wedi dechrau sbarduno newid gwirioneddol, parhaol. O fannau a oedd wedi'u hesgeuluso sydd bellach yn llawn bywyd, i denantiaid a phreswylwyr wedi'u grymuso sy'n arwain mentrau lleol, mae mwy i'n gwaith na darparu gwasanaethau yn unig – rydym yn adeiladu rhywbeth gyda'n gilydd. Aeth y Panel Gweithredu Tenantiaid (TAP) ar ei newydd wedd ati i gryfhau grwpiau gweithgor, ac mae arweinwyr cymunedol newydd yn dangos beth sy'n bosibl pan rydym yn ymddiried mewn pobl, eu clywed a'u cefnogi.

Ni fyddai unrhyw un o'r pethau hyn yn bosibl heb ymroddiad a chred ein cydweithwyr. Eu hymrwymiad i'n gweledigaeth, ein tenantiaid a'n cymunedau yw'r hyn sy'n sbarduno'r

trawsnewidiad hwn. Rwy'n ddiolchgar iawn i bob aelod o'r tîm am eu gwaith caled a'u hangerdd.

Rwyf hefyd eisiau diolch o galon i'n Bwrdd a'n rhanddeiliaid ehangach am eu cymorth a'u cydweithrediad parhaus drwy gydol y cyfnod cyffrous hwn o newid.

Wrth i ni edrych ymlaen, rydym yn gwneud hynny gydag optimistiaeth, pwrpas a momentwm. Mae eleni wedi profi, pan fyddwn yn gweithio mewn partneriaeth wirioneddol gyda'n tenantiaid, ein bod yn cyflawni mwy na newid – rydym yn creu mudiad. Gyda'n gilydd, rydym yn adeiladu cartrefi cryfach, cymunedau cryfach a dyfodol cryfach. Mae'r gorau eto i ddod.



Adroddiad effaith

Ein cartrefi

darparu cartrefi a
lleoedd o safon

Effaith



62

Cartrefi newydd a ddarparwyd



558

Cartrefi a roddwyd ar osod yn ystod y flwyddyn




96%

Bodddhad gyda chartrefi sydd newydd eu gosod



£33.1m

Cyfanswm y buddsoddiad a wnaed yn ein cartrefi presennol



99.5%

Cydymffurfiaeth statudol



270

Cartrefi wedi'u gwella drwy Raglen Gwella Thermol



665

Cartrefi wedi'u haddasu i wella hygyrchedd



435

Cartrefi sy'n elwa ar ddrysau a ffenestri newydd



84%

Bodddhad gydag atgyweiriadau



91%

Bodddhad gyda'r tîm crefftau mewnol



95.1%

Atgyweiriadau a gwblhawyd ar yr ymweliad cyntaf



45,134

Nifer yr atgyweiriadau a gwblhawyd

Portffolio eiddo

Anghenion Cyffredinol	
Tai	9,445
Cartrefi i bobl hŷn	629
Tai â Chymorth	67
Cyfanswm	10,141

Arall	
Rhent y farchnad	53
Masnachol	52
Garejys	1,604
Lesddeiliaid	615

Darparu mwy o gartrefi newydd



Yn 2024/25, fe wnaethom gymryd camau breision wrth ddarparu mwy o gartrefi i'n cymunedau. Fe wnaethom drosglwyddo chwe deg dau o gartrefi newydd o ansawdd uchel ar draws chwe datblygiad, gan gynnwys adeiladau ysgol wedi'u hadnewyddu, adeiladau newydd sbon a phrynu cartrefi preifat yn ôl.

Erbyn diwedd y flwyddyn, roeddem ar y safle gyda deg cynllun arall, a fydd yn darparu 139 o gartrefi ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf. Fe wnaethom hefyd ddymchwel Mitchell Court yn Nhonypandy, gan wneud lle ar gyfer hanner cant o gartrefi ynni-ffeithlon, gan gynnwys tai a fflatiau.

Fe wnaethom sicrhau £17.3 miliwn o gyllid Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, ynghyd â £12.3 miliwn mewn benthyciadau i gefnogi'r gwaith hanfodol hwn.

Mae'r cerrig milltir hyn yn nodi cynnydd gwirioneddol tuag at ein nod o ddarparu cartrefi diogel, cynnes a fforddiadwy, gan helpu mwy o bobl i fyw'n dda mewn cymunedau ffyniannus.

Dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd

Eleni, fe wnaethom wynebu heriau wrth ddod â chartrefi gwag – a elwir hefyd yn eiddo gwag – yn ôl i ddefnydd, gyda llawer o eiddo angen gwaith mawr, gan gynnwys gwaith mawr o ran clirio gerddi ac uwchraddio i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

Er gwaethaf hyn, fe wnaethom gynnydd sylweddol. Erbyn diwedd y flwyddyn, roeddem wedi lleihau'r amser cyfartalog y mae'n ei gymryd i ddod â chartref yn ôl i ddefnydd i 47 diwrnod, gwelliant sylweddol o ystyried y cynnydd ym maint a chymhlethdod y gwaith.

Mae ein ffocws bob amser wedi bod ar ansawdd. Dywedodd 96% o denantiaid newydd wrthym eu bod yn fodlon â chyflwr eu cartrefi pan symudon nhw i mewn. Mae hyn yn adlewyrchu ymroddiad ein timau i sicrhau bod pob cartref yn lân, yn ddiogel ac yn barod i fyw ynddo.





Gwella a chynnal a chadw cartrefi presennol

Rydym yn falch o'r cynnydd rydym wedi'i wneud eleni i wella a chynnal ein cartrefi a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Carreg filltir bwysig oedd cyflawni sgôr Arian gan SHIFT, y brif safon gynaliadwyedd yn y sector tai. Mae hyn yn adlewyrchu gwaith caled ein timau a'n partneriaid i greu cymunedau gwyrddach, iachach.

Gwelliannau effeithlonrwydd ynni

Rydym wedi gwella perfformiad ynni dros 1,600 o gartrefi, gydag 80% o'n holl gartrefi bellach wedi'u graddio'n EPC C neu uwch. Drwy'r Rhaglen Gwella Thermol, fe wnaethom uwchraddio 270 o eiddo gyda gwell deunydd inswleiddio, ffenestri, drysau a thoeau newydd.

Enghraifft wych yw yn Llanharan, lle trawsnewidiwyd byngalos a adeiladwyd yn y 1970au. Ar ôl gwelliannau a gosod paneli solar, dywedodd tenantiaid fod eu cartrefi'n gynhesach a'u biliau'n is. Arweiniodd yr uwchraddiadau hyn at ostyngiad o 26% ar gyfartaledd yn yr ynni sydd ei angen ar gyfer gwresogi a naid mewn graddfeydd ynni o EPC D i EPC A.

Data amgylcheddol a chynlluniau gweithredu

Rydym bellach wedi casglu pedair blynedd o ddata carbon ac wedi cwblhau asesiad amgylcheddol llawn, gan ein helpu i lunio cynlluniau cynaliadwyedd craff, wedi'u targedu. Er gwaethaf newid yn y ffordd mae allyriadau'n cael eu mesur, gwelsom ostyngiad flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn allyriadau fesul cartref o dan ddulliau blaenorol.

Datgarboneiddio ac arloesi

Rydym yn gweithio'n agos gydag Ysgol Pensaernïaeth Cymru ar brosiect ymchwil i dorri carbon ar draws ein stoc dai. Rydym hefyd wedi gosod systemau solar PV mewn 119 eiddo, gan ein helpu i leihau ein hól troed carbon ymhellach.

Wrth edrych ymlaen, byddwn yn parhau i wella cartrefi, cefnogi gwydnwch hinsawdd a sicrhau bod ein tenantiaid yn elwa ar dai cynnes, ynni-effeithlon, gan ddiogelu ein hamgylchedd ar yr un pryd.



Adfywio Pen-rhys

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar ailddatblygu Pen-rhys. Bydd cam un yn darparu 120 o gartrefi newydd, fel rhan o gynllun hirdymor cyffrous ar gyfer tua 900 o gartrefi ar draws yr ystad. Mae preswylwyr wedi bod wrth wraidd y broses, gan gwrdd â phenseiri, cynllunwyr a'n tîm i helpu i lywio dyfodol eu cymuned.

Mae ymchwiliadau safle wedi arwain lle rydym yn dechrau, ac mae cynlluniau manwl bellach yn cael eu datblygu. Ein nod yw cyflwyno cais manwl ar gyfer cam un erbyn mis Mehefin 2025 ac yna cais cynllunio hybrid ar gyfer y pentref cyfan.

Gwella gwasanaethau atgyweirio ac eiddo gwag

Eleni, fe wnaethom gynnydd mawr wrth wella ein gwasanaeth atgyweiriadau, gan roi diogelwch a boddhad tenantiaid wrth wraidd popeth a wnawn.

Rydym yn falch o fod wedi cyrraedd record o 86% o atgyweiriadau wedi'u cwblhau ar amser, diolch i ymroddiad ein timau a'r ffyrdd craffach o weithio. Mae ein hamser atgyweirio cyfartalog bellach ychydig yn llai na 15 diwrnod, gwelliant o 23% o gymharu â'r llynedd.

Mae adolygiad annibynnol gan Housemark yn ein gosod ni yn y 10% uchaf o landlordiaid sydd wedi gwella fwyaf o ran atgyweiriadau ledled y DU – sy'n arwydd clir o'r cynnydd rydym wedi'i wneud.

Rydym hefyd wedi lleihau atgyweiriadau hen i ddim ond 8.5%, y lefel isaf erioed. Mae boddhad cwsmeriaid yn parhau i fod yn gryf, gydag 84% yn hapus gyda'r gwasanaeth atgyweiriadau a 91% yn fodlon â'n crefftwyr ar y safle.

Er gwaethaf heriau gydag eiddo gwag cymhleth, rydym wedi dod â'r amser cyflawni cyfartalog i lawr i 47 diwrnod ac wedi cyflawni cyfradd boddhad o 96% ar gyfer cyflwr cartrefi pan fydd tenantiaid yn symud i mewn.

Cadw cartrefi yn ddiogel

Diogelwch yw ein prif flaenoriaeth. Rydym yn parhau i fod yn y chwarterl uchaf ar gyfer cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch landlordiaid ac yn parhau i arwain ar ddiogelwch tân, gyda thros 1,000 o asesiadau risg sy'n canolbwyntio ar unigolion eleni.

Rydym wedi buddsoddi mewn hyfforddiant staff a systemau craffach, gan gynnwys lanlwytho 11,000 o adroddiadau asbestos i'n system ganolog, gan wella diogelwch a mynediad at wybodaeth. Mae diogelwch tân wedi'i gryfhau gyda rolau a hyfforddiant newydd, gan leihau'r angen am fwy nag un ymweliad a rhoi hwb i hyder y tenantiaid.

Y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i wella ein gwasanaeth i sicrhau bod pob cartref yn ddiogel, yn gyfforddus ac yn cael ei gynnal yn dda, i bawb sy'n byw mewn cartref Trivallis.



Ein gwasanaethau

trawsnewid profiad
tenantiaid

Effaith



83,129

Galwadau a dderbyniwyd i'r ganolfan gyswllt



93%

% y galwadau i'r ganolfan gyswllt a atebwyd



91%

% y galwadau a ddatryswyd yn ystod y cyswllt cyntaf



77%

Boddhad cwsmeriaid



42%

Boddhad â'r gwasanaeth Rheoli Cymdogaeth



95%

% yr achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol a ddatryswyd dros y flwyddyn



2.7%

% ôl-ddyledion tenantiaid



£5.4m

Incwm ychwanegol ac arbedion a sicrhawyd i denantiaid drwy'r gwasanaeth Cyngor Ariannol




1,487

Pobl a gefnogwyd drwy ein rhaglenni cymorth llesiant

Boddhad cwsmeriaid

Dangosodd ein harolwg blynyddol o denantiaid a phreswylwyr (STAR) sawl tuedd gadarnhaol, ond rydym yn cydnabod bod llawer i'w wneud o hyd. Cynyddodd lefelau boddhad gydag atgyweiriadau a chynnal a chadw o 63% i 66%, a chynyddodd ymddiriedaeth yn y sefydliad o 74% i 76%. Roedd safbwyntiau ar werth rhent a diogelwch yn y cartref wedi gwella ychydig i 81%. Yn nodedig, cynyddodd lefelau boddhad â'r ffordd mae achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu trin o 53% i 57%. Yn gyffredinol, arhosodd boddhad gwasanaeth yn sefydlog ar 77%.

Canlyniadau boddhad STAR



Ffynhonnell: Housemark (% o denantiaid Trivallis a oedd yn cytuno â phob datganiad)

Ad-drefnu ardaloedd gwasanaeth cymdogaeth

Eleni, fe wnaethom ail-lunio sut mae ein timau tai cymunedol yn gweithio, gan gynyddu nifer y Swyddogion Tai Cymunedol fel bod pob un yn cwmpasu ardaloedd llai, i lawr o tua 700 o gartrefi i 350 – 400. Mae hyn yn golygu y gall swyddogion dreulio mwy o amser yn eu cymunedau, yn dod i adnabod preswylwyr a phartneriaid yn well ac yn cynnig cymorth cynnar cyn i broblemau dyfu.

Mae ardaloedd llai yn caniatáu i swyddogion adeiladu ymddiriedaeth, gweithio'n rhagweithiol ac ymateb yn gyflymach. Mae'r dull newydd hwn eisoes yn gwneud cymunedau'n fwy diogel a chryf.

Dros y flwyddyn, cynyddodd lefelau boddhad â gwasanaethau cymdogaeth o 36% i 40%. Roedd hyn yn galonogol ac rydym yn gobeithio adeiladu ar hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.

Creu timau ar sail ardal

Fe wnaethom gyflwyno chwe thîm ardal leol sy'n cynnwys staff o'n timau cynaliadwyedd tai a thenantiaethau. Mae'r timau hyn bellach yn canolbwyntio ar gymunedau penodol, gan adeiladu gwybodaeth leol a theilwra cymorth lle mae ei angen fwyaf.

Mae'r ffordd hon o weithio wedi ein helpu i ymateb yn gyflymach ac yn fwy personol, gan annog staff i weithio'n agos gyda'i gilydd a chyda thenantiaid ar yr un pryd. Mae timau eraill bellach yn mabwysiadu'r model hwn, sydd eisoes yn gwella sut rydym yn deall ac yn diwallu anghenion lleol.

Aildiffinio rôl Swyddogion Tai Cymunedol

Mae Swyddogion Tai Cymunedol bellach yn gwneud mwy na datrys problemau – maen nhw'n bartneriaid cymunedol. Maent yn gweithio ochr yn ochr â thenantiaid i ddod o hyd i atebion parhaol, gan fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau a defnyddio cryfderau pob tenant.

Mae gan swyddogion amser i gael sgysiau ystyrlon a gweithio gyda thenantiaid i wella llesiant a chreu tenantiaethau mwy cynaliadwy. Mae'r newid hwn yn creu preswylwyr mwy grymus a chymdogaethau iachach.



Ymwreiddio diwylliant un tîm

Fe wnaethom gryfhau ein dull 'Tîm o amgylch y Tenant', lle mae pob tîm yn cydweithio i roi tenantiaid yn gyntaf. Drwy rannu gwybodaeth a datrys problemau gyda'n gilydd, rydym yn osgoi oedi ac yn sicrhau bod tenantiaid yn cael y cymorth cywir y tro cyntaf.

Rhoddwyd adnoddau gwell i staff, gan gynnwys porth mewnlol newydd, gan eu helpu i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflym a datrys problemau yn y pwynt cyswllt cyntaf.

Cydweithio â phartneriaid

Rydym wedi dyfnhau ein partneriaethau gydag asiantaethau, yr heddlu a gwasanaethau lleol i wneud cymunedau'n fwy diogel ac yn fwy cysylltiedig. Yng Nghae Fadre, er enghraifft, fe wnaeth gweithio gyda'n gilydd helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a meithrin ymddiriedaeth â phreswylwyr.

Treuliodd swyddogion fwy o amser yn eu hardaloedd, yn dod i adnabod partneriaid allweddol a chydweithio i gefnogi tenantiaid. Fe wnaeth ein cyfraniad at bartneriaethau iechyd strategol hefyd helpu i nodi blaenoriaethau cyffredin a sbarduno atebion sy'n canolbwyntio ar y gymuned.



Camu i'r adwy yn gynnar

Gyda gwybodaeth leol ddyfnach a chysylltiadau cymunedol cryfach, roedd swyddogion yn gallu nodi problemau'n gynnar. Drwy wrando ar denantiaid a deall eu hanghenion, gallwn eu cysylltu â'r gwasanaethau cymorth cywir ar yr adeg iawn.

Gwnaeth y dull ataliol hwn wella canlyniadau a chryfhau gwydnwch cymunedol. Gostyngodd adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol o 576 yn 2023/24 i 522 yn 2024/25 ac aeth nifer y datrysiadau i fyny o 92% i 95%.

Sicrhau dechreuad cryf

Fe wnaethom gefnogi tenantiaid newydd o'r diwrnod cyntaf ac roeddem wrth ein bodd bod boddhad tenantiaid newydd wedi cynyddu o 89% i 96%. Gosodwyd lloriau newydd ym mhob cartref cyn eu gosod, ac roedd tenantiaid yn cael cyngor ar reoli arian a chael gafael ar ddodrefn fforddiadwy. Helpodd hyn i leddfu'r pwysau ariannol o sefydlu cartref newydd.

I'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol, darparodd ein prosiect GRAMO arweiniad cyn-denantiaeth dwys, gan roi'r sgiliau iddynt gynnal eu tenantiaeth yn y tymor hir.

Rheoli materion cymhleth gyda chymorth strwythuredig

Drwy ein model Tîm o amgylch y Tenant, fe wnaethom ddarparu cymorth strwythuredig wedi'i deilwra i denantiaid sy'n wynebu heriau cymhleth. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaethau mewnol ac allanol, yn dibynnu ar yr hyn oedd ei angen.

Yn 2024/25, helpodd ein gwasanaethau cymorth a ariennir gan y Grant Cymorth Tai gannoedd o bobl ledled Rhondda Cynon Taf i aros yn eu cartrefi, i fyw'n fwy annibynnol ac i feithrin y sgiliau sydd eu hangen i reoli tenantiaeth.

Darparodd **SAFE** gymorth wedi'i deilwra i 1074 o bobl ag anghenion tai, gan gynnwys y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl neu heriau cymhleth. Cyflawnodd y gwasanaeth ganlyniadau cryf, gydag 89% o gleientiaid yn cynnal tai sefydlog ac 81% o'r cymorth yn arwain at ganlyniad cadarnhaol. Cafodd SAFE ei ail-dendro yn llwyddiannus ym mis Mai 2024, gan sicrhau cyflenwad am hyd at 7 mlynedd arall.

Fe wnaeth **MAGPIE**, ein gwasanaeth cymorth celcio, helpu tenantiaid i fynd i'r afael ag ymddygiadau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn ac aros yn ddiogel yn eu cartrefi. Arweiniodd 81% o'r cymorth at ganlyniad cadarnhaol, a chafodd y gwasanaeth lefel boddhad cleientiaid o 100% ac ennill Gwobr Tai Cymru.



Mae **GRAMO** wedi darparu hyfforddiant cyn-denantiaeth i 531 o bobl dros y tair blynedd diwethaf, gyda chyfradd cwblhau o 76%. Fe wnaeth yr hyfforddiant roi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar bobl i fyw'n annibynnol yn llwyddiannus.

Tai gwarchod

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio'n galed i gefnogi llesiant a lleihau unigrwydd yn ein tri ar hugain o gynlluniau tai gwarchod. O gwisiau, clybiau brecwast a hybiau cynnes i weithgareddau sy'n deall dementia, mae tenantiaid wedi mwynhau cysylltu a rhannu amser gyda'i gilydd. Rydym wedi creu partneriaeth â Frailty Nurses, Dementia Friends, RNID ac Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian, gan gynnig allgymorth, cyngor a chymorth hanfodol.

Fe wnaethom helpu pedwar ar hugain o denantiaid i adleoli'n llwyddiannus o Fanheulog, gan sicrhau symudiadau llyfn, cadarnhaol.



Ein cymunedau

grymuso pawb a
dylanwadu ar newid



Esblygu ein hymagwedd at lesiant cymunedol

Eleni, fe wnaethom symud o fodel trafodion i fodel trawsnewidiol drwy ein dull datblygu cymunedol. Ar draws ein cymunedau, pobl leol oedd yn arwain y ffordd o ran adfywio ardaloedd wedi'u hesgeuluso, adeiladu hybiau lleol a gwella diogelwch a chydlyniant cymdogaeth.

Ym Maes y Deri, bu'r preswylwyr yn glanhau ac yn adennill eu gofod awyr agored, gan ei drawsnewid yn lle diogel a chroesawgar. Yng Nghae Fardre, mae hyb lleol sy'n cael ei redeg gan breswylwyr bellach yn darparu bwyd, gwasanaethau iechyd meddwl a gweithgareddau teuluol. Ym Mhen-rhys, aeth preswylwyr ati i lywio ailddatblygiad eu hardal ochr yn ochr â phenseiri a chynllunwyr, cyflwyno pobl ifanc i hyfforddiant crefftau ac adfywio gofod natur lleol.

Cefnogodd Prosiect Rise Strong, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, dros 597 o bobl mewn tair cymuned. Cryfhaodd grwpiau dan arweiniad y gymuned a helpodd teuluoedd i gysylltu â gwasanaethau ac â'i gilydd. Ym mhob ardal, adroddodd pobl gysylltiadau cryfach, gwell iechyd meddwl ac ymdeimlad dyfnach o berthyn.

Galluogi dylanwad tenantiaid a chyfranddalwyr

Mae cyfranogiad tenantiaid wedi sbarduno newid gwirioneddol eleni. Fe wnaeth ein Panel Gweithredu Tenantiaid (TAP), sydd wedi cael egni o'r newydd o dan arweinyddiaeth newydd, lansio Cylch Gorchwyl a Chanllaw newydd ar gyfer cymryd rhan. Bydd brand newydd, Tenantiaid Ynghyd – Gwneud Gwahaniaeth, yn cefnogi recriwtio a gweledd.

Dathlodd T-Fest 120 o denantiaid yn gwneud gwahaniaeth. Cafodd y tenantiaid a oedd yn cymryd rhan gydnabyddiaeth genedlaethol yng Ngwobrau TPAS hefyd, gan gynnwys diolch o galon gan arweinydd tenantiaid a aeth o gael ei stigmatiddio i redeg prosiect lleol llwyddiannus.

Cyflawniadau'r gweithgor:



Cymdogaethau ac Ystadau:

Ysbrydoli 8 Diwrnod Ystadau Gwych, gan ddod â phreswylwyr a staff at ei gilydd i wella ardaloedd lleol.



Cwynion:

Cynyddu boddhad o 54% i 70%; gwella dibynadwyedd apwyntiadau 3%.



Panel Grantiau Cymunedol:

Dyfarnu £32,903 i 43 o fentrau dan arweiniad tenantiaid.



Atgyweiriadau:

Helpu i leihau'r ôl-groniad; eirioli dros gynyddu'r iawndal am apwyntiadau a gollwyd o £5 i £15.



Grŵp Gorchwyl Ail-godi Tâl:

Creu polisïau codi tâl tecach.



Grŵp Asedau:

Treialu adolygiadau perfformiad a dethol contractwyr dan arweiniad tenantiaid.



Grŵp Tai Gwarchod:

Sicrhau bod lleisiau preswylwyr hŷn yn cael eu clywed ac y gweithredir arnynt.

Roedd tenantiaid hefyd yn cefnogi prosesau caffael contractau a recriwtio staff newydd.

Cefnogi economïau lleol drwy adeiladu cyfoeth cymunedol

Fe wnaeth ein cymunedau fwy na gwella gofodau – fe wnaethant adeiladu cryfder economaidd. Yn Nhonyrefail, helpodd cymorth busnes lleol i adfywio canol y dref. Ym Mhen-rhys a Meisgyn, helpodd mentrau fel cynlluniau budd-daliadau a chyfleoedd hyfforddi breswylwyr i adeiladu eu sgiliau a'u hincwm. Fe wnaethom gefnogi Grŵp Datblygu Cymoedd y Gogledd sydd â'r potensial i greu 200 o swyddi newydd.

Cymerodd preswylwyr Pen Dinas gyfrifoldeb am raglen ieuenctid, gan ddangos bod gwasanaethau'n ffynnu pan gânt eu trosglwyddo'n ôl i gymunedau. Yn y Ddraenen-wen, Pen-y-waun, Glyn-coch, a Phant-y-Cerdin, sbardunodd gwelliannau dan arweiniad tenantiaid yn dilyn Diwrnodau Ystadau Gwych fwrlwm newydd.

Mae'r mentrau hyn yn meithrin perchnogaeth leol, yn adeiladu hyder ac yn creu llwybrau cynaliadwy i ffyniant dan arweiniad y gymuned.

Gwerth cymdeithasol

Mae ein trefniadau caffael gyda busnesau lleol wedi diogelu swyddi a chreu gwerth cymdeithasol ychwanegol i'r economi leol. Rydym wedi chwarae rôl allweddol wrth leihau tlodi a hybu ffyniant lleol.

- Gwariwyd **£50 miliwn** gyda chontractwyr yn y De, sef **79%** o gyfanswm ein gwariant.
- Gwariwyd **£13 miliwn** gyda chontractwyr o'r tu allan i Gymru, sef **21%** o gyfanswm ein gwariant.

Swyddi o ansawdd uchel

Rydym yn gweithio'n galed i fod yn gyflogwr o safon yn Rhondda Cynon Taf, gan feithrin amgylchedd gwaith lle mae gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u cefnogi. Rydym wedi'n hardystio fel cyflogwr cyflog byw gwirioneddol, gan warantu bod ein gweithwyr yn ennill cyflog digonol ar gyfer safon byw gweddus.

- Rydym yn cyflogi **455** o bobl yn uniongyrchol.
- Mae **77%** o'r staff yn byw yn Rhondda Cynon Taf.



Eirioli dros bolisiau sy'n canolbwyntio ar y gymuned

Rydym wedi parhau i hyrwyddo polisiau sy'n blaenoriaethu lleisiau tenantiaid a chryfder cymunedol. Mae ein gweithgorau dan arweiniad tenantiaid a'n strwythur TAP wedi dylanwadu ar benderfyniadau allweddol – lleihau maint ardaloedd swyddogion tai, gwella gwasanaethau atgyweirio a gwella gwasanaeth cwsmeriaid.

Roedd gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn ganolog i'n dull gweithredu. Roedd cydweithrediadau ag ysgolion, cyngorau lleol a mudiadau gwirfoddol yn cefnogi ein gwaith cymunedol, gan gynnwys y Prosiect Rise Strong, a ddangosodd effaith hirdymor ymyriadau tymor byr pan gânt eu llywio gan y rhai sy'n byw y profiad.

Wrth edrych ymlaen, mae pob aelod o'r tîm datblygu cymunedol bellach wedi'i hyfforddi mewn Datblygu Cymunedol Seiliedig ar Asedau (ABCD). Rydym hefyd yn recriwtio Partner Budd Cymunedol i ddyfnhau ein heffaith a'n gwerth cymdeithasol yn y flwyddyn i ddod.

Straeon sy'n ysbrydoli newid

"Diolch am gredu ynof i. Yn ogystal â chael fy adnabod fel rhywun oedd yn dipyn o lond llaw ac angen 'ymweliad dau berson', roedd gen i enw drwg o fewn Trivallis hefyd. Mae gallu rhoi rhywbeth yn ôl i 'nghymuned wedi helpu fy iechyd meddwl. Mae'n waith caled dechrau prosiect newydd sbon, ond dwi wrth fy modd. Yr uchafbwynt i mi oedd ymweld â'r ysgol leol a chynnal cyfarfod... gweld y pennaeth eto ar ôl yr holl flynyddoedd... Eiliad 'pinsia fi' sy'n profi fy mod i wedi gwneud yn dda."

Profodd eleni y gall pŵer tenantiaid ail-lunio gwasanaethau, cymunedau a bywydau. Drwy roi pobl yn y canol, fe wnaethom helpu i ddatgloi talent, ailadeiladu ymddiriedaeth ac ysbrydoli gweledigaeth gyffredin ar gyfer yr hyn y gall ein cymdogaethau fod.



Ein pobl

cefnogi a thyfu
ein cydweithwyr

Cynhwysiant

Ein gweledigaeth yw bod yn wirioneddol gynhwysol, gan ganiatáu i bawb fod yn nhw eu hunain, codi ymwybyddiaeth a chydabod manteision aruthrol ein cymuned amrywiol. Ar 31 Mawrth 2025, gellir crynhoi ystadegau ein cydweithwyr fel a ganlyn:



Tarddiad Ethnig	Gwyn	433	94%
	Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	9	2%
	Heb ddatgan	17	4%
	Mae'n well gen i beidio â dweud	2	1%
Rhywedd	Gwryw	248	54%
	Benyw	213	46%
Anabledd	Oes	29	6%
	Nac oes	426	92%
	Heb ddatgan	6	2%
Cyfeiriadedd Rhywiol	Deurywiol	7	2%
	Hoyw (dyn neu fenyw)	12	3%
	Heterorywiol	387	84%
	Heb ddatgan	42	9%
	Mae'n well gen i beidio â dweud	13	3%
Crefydd	Cristion	126	27%
	Crefydd Arall	6	1%
	Dim crefydd	264	57%
	Heb ddatgan	46	10%
	Mae'n well gen i beidio â dweud	19	4%
Oedran	16 – 19	4	1%
	20 – 29	65	14%
	30 – 39	119	26%
	40 – 49	126	27%
	50 – 59	102	22%
	60 – 64	30	7%
	65+	15	3%

Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel

Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn datblygu arweinwyr hyderus, galluog ar draws ein sefydliad. Mae ein rhaglen datblygu arweinyddiaeth ar gyfer uwch arweinwyr wedi darparu dysgu a chymorth wedi'u targedu i'w helpu i arwain gydag eglurder, tosturi a hyder. Mae hyn wedi galluogi ein huwch dîm i gymryd dull mwy strategol sy'n seiliedig ar gryfderau, gan ein helpu i adeiladu gwydnwch a'r gallu i addasu ar draws y busnes.

Mae ein rhaglen Brilliant Basics ar gyfer rheolwyr a goruchwylwyr yn canolbwyntio ar y sgiliau a'r wybodaeth hanfodol sydd eu hangen ar arweinwyr rheng flaen i reoli timau'n dda. Mae adborth gan gyfranogwyr wedi bod yn gadarnhaol, gyda llawer yn adrodd mwy o hyder wrth ddelio â heriau o ddydd i ddydd, gwell cyfathrebu â'u timau a dealltwriaeth gliriach o'u cyfrifoldebau.

Rydym hefyd wedi bod yn ymwreiddio ein gwerthoedd ym mhopeth a wnawn, gan sicrhau bod ein harweinyddiaeth ar bob lefel yn adlewyrchu pwy ydym ni fel sefydliad. Drwy fabwysiadu dull arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar gryfderau, rydym yn helpu pobl i ganolbwyntio ar yr hyn maen nhw'n ei wneud orau a chreu diwylliant lle mae pawb yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i gyfrannu. Mae'r dull hwn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i forâl a pherfformiad y tîm, ac mae'n helpu i ddatgloi potensial ar draws y busnes.

Meithrin diwylliant cydweithredol a chynhwysol

Eleni, cymerodd pob cydweithiwr ran yn ein rhaglen Cyfathrebu Cydweithredol. Drwy weithdai, adnoddau ac offer ymarferol, rydym wedi cefnogi timau i wella sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd ac yn cyfathrebu â'i gilydd ac â'n tenantiaid. Mae'r fenter hon wedi helpu i greu cyd-ddealltwriaeth o gydweithredu a sut mae'n fuddiol i bawb – ein staff, ein cwsmeriaid a'n cymunedau.

Drwy fabwysiadu cydweithredu fel ein ffordd ddiofyn o weithio, rydym yn ei gwneud hi'n haws i bobl deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u gwerthfawrogi. Credwn fod cydweithredu yn sbardun allweddol o degwch, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI), gan ei fod yn annog sgysiau agored, datrys problemau a gwrando parchus.

Rydym hefyd wedi cyflwyno polisi Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) newydd, ochr yn ochr â chynllun gweithredu manwl. Mae'r rhain yn gamau pwysig ymlaen o ran ymwreiddio EDI ym mhopeth a wnawn – o recriwtio a hyfforddiant i ddylunio a darparu gwasanaethau. Mae ein cynllun gweithredu yn nodi nodau clir, ac rydym yn monitro cynnydd yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn cadw ar y trywydd iawn ac yn cyflawni newid ystyrlon.



Blaenoriaethu iechyd a llesiant cydweithwyr

Mae llesiant ein cydweithwyr yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth. Fe gymeron ni ran ym Mynegai Llesiant Mind am y tro cyntaf, gan ennill sgôr Efydd. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn dangos ein bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir, ond rydym yn gwybod bod mwy i'w wneud. Mae canlyniadau'r arolwg wedi ein helpu i nodi meysydd allweddol i'w gwella, ac rydym eisoes wedi dechrau gweithredu ar yr adborth hwn.

Rydym wedi sefydlu'r Grŵp Llesiant Thrive, sy'n cynnwys cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad sy'n angerddol am hyrwyddo iechyd a llesiant. Mae'r grŵp hwn wedi helpu i lywio ein cynllun gweithredu llesiant newydd, sy'n cynnwys cymorth ymarferol a newid diwylliant tymor hwy.

Rydym hefyd wedi dechrau archwilio cyfleoedd gweithio hyblyg, gan gydnabod y gall hyblygrwydd helpu pobl i gyflawni gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Ein nod yw creu gweithle sy'n cefnogi pob cydweithiwr i ffynnu, boed hynny'n golygu gweithio gartref, addasu oriau neu gymryd amser i ganolbwyntio ar iechyd meddwl a datblygiad personol.

Gwella boddhad swydd a phrofiad cydweithwyr

Rydym wedi parhau i weithio'n galed i wella sut mae ein cydweithwyr yn teimlo am eu rolau a'r sefydliad yn ei gyfanrwydd. Dangosodd ein harolwg cydweithwyr diweddaraf ganlyniadau cadarnhaol mewn sawl maes, gyda phobl yn tynnu sylw at well cyfathrebu ac ymdeimlad cryfach o bwrpas. Fodd bynnag, tynnodd sylw hefyd at rai meysydd lle mae angen i ni wneud yn well.

Mewn ymateb, rydym yn datblygu cynllun profiad cydweithwyr pwrpasol, wedi'i lywio gan adborth ac wedi'i lunio gan bobl o bob rhan o'r busnes. Bydd y cynllun hwn yn canolbwyntio ar gydnabyddiaeth, datblygu gyrfa a boddhad yn y gwaith o ddydd i ddydd.

Cyflawniad allweddol eleni yw ein ffocws ar gyfathrebu. Rydym wedi gwella'r ffordd rydym yn rhannu gwybodaeth, gan sicrhau bod pobl yn teimlo'n wybodus ac wedi'u cynnwys. Rydym hefyd wedi gwneud yn siŵr bod ein cyfathrebiadau yn ddwyffordd – gan annog cwestiynau, adborth ac awgrymiadau gan gydweithwyr. Mae'r dull mwy agored hwn yn ein helpu i adeiladu ymddiriedaeth a chryfhau cysylltiadau ar draws timau.



Hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn falch o fod wedi cyflwyno polisi a chynllun gweithredu Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i ddod yn sefydliad mwy cynhwysol. Nid polisïau ar bapur yn unig yw'r adnoddau hyn – maen nhw'n llywio ein gwaith bob dydd, gan ein helpu i wneud newid gwirioneddol, parhaol.

Mae dwy ran o'n busnes – Crefftau a Gwaith Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio, a Datblygu – wedi ennill achrediad Diverse Cymru. Mae'r gydnabyddiaeth allanol hon yn dangos bod ein dull nid yn unig yn ddilys ond yn effeithiol hefyd. Mae'n arwydd o waith caled ac ymrwymiad timau sy'n ymwreiddio EDI yn eu gweithrediadau ac yn hyrwyddo arferion cynhwysol bob dydd.

Rydym yn parhau i ddysgu, myfyrio a thyfu yn y maes hwn, ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i greu gweithle lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn.

Adeiladu gweithlu sy'n barod i'r dyfodol

Gwyddom fod paratoi ar gyfer y dyfodol yn hanfodol. Wrth i dechnoleg esblygu ac anghenion cwsmeriaid newid, mae angen i ni sicrhau bod ein gweithlu'n meddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r offer cywir i addasu a llwyddo.

Eleni, rydym wedi cydnabod bod angen mwy o waith i ddeall anghenion ein gweithlu yn y dyfodol yn llawn. Rydym bellach yn datblygu strategaeth gweithlu i'n tywys dros y blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn cynnwys ffocws cryf ar ddysgu a datblygu, cynllunio ar gyfer olyniaeth a chreu llwybrau newydd i'n sefydliad ar gyfer pobl ifanc a'r rhai sydd wedi'u tangynrychioli yn ein sector.

Mae cefnogi a thyfu ein pobl wrth wraidd ein cenhadaeth. Mae'r cynnydd rydym wedi'i wneud eleni yn sylfaen gadarn ar gyfer yr hyn sy'n dod nesaf. Byddwn yn parhau i wrando, dysgu a gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod pob cydweithiwr yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei gefnogi ac yn gallu cyrraedd ei botensial llawn.



A middle-aged man with short grey hair and glasses is sitting on a grey sofa. He is wearing a white t-shirt with thin blue and brown horizontal stripes. He is holding a dark blue tablet in his left hand and a white stylus in his right hand, looking down at the screen. In the background, there is a large window looking out onto a balcony with potted plants, including one with orange flowers. A large, semi-transparent pink circle with a dark grey center is overlaid on the right side of the image, containing the title text.

Ein systemau data a digidol



Ein systemau data a digidol

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein timau Gwella Busnes a TG wedi sbarduno arloesedd, effeithlonrwydd a gwell profiadau defnyddwyr ar draws y sefydliad. Fe wnaethom ganolbwyntio ar symleiddio systemau, lleihau cymhlethdod a gwella gwerth am arian.

Mae cyflawniadau allweddol yn cynnwys lansio porth staff newydd, rhoi mynediad cyflymach a haws i dimau at wybodaeth am denantiaid a rhoi hwb i gynhyrchiant. Fe wnaethom hefyd gyflwyno porth cwsmeriaid, sydd bellach yn cael ei ddefnyddio gan dros 1,000 o denantiaid, gan eu galluogi i wirio balansau rhent, cofnodi atgyweiriadau a rheoli cyfrifon yn annibynnol.

Fe wnaethom integreiddio ein system asedau â Dynamics 365, gan gael gwared ar hen systemau, awtomeiddio prosesau a gwella cywirdeb data. Mae ein systemau Rheoli Tai a Chyllid hefyd wedi'u hawtomeiddio, gan leihau gwaith llaw a chryfhau llywodraethu ariannol.

Er mwyn cefnogi staff, fe wnaethom gyflwyno platfform mabwysiadu digidol sy'n cynnig sesiynau tiwtorial a dysgu ymarferol, gan helpu cydweithwyr i feithrin hyder gydag offer digidol newydd. Mae siop un stop bellach yn ei gwneud hi'n haws i staff adrodd ac olrhain problemau, gan eu datrys yn gyflymach.

Fe wnaethom fudo systemau AD a Chyflogres i'r cwmwl, gan wella gwydnwch, a chwblhau proses adnewyddu seilwaith i leihau'r defnydd o ynni a gwella adferiad wedi trychineb.

Mae gwelliannau teleffoni yn cynnwys newid i integreiddio Teams ac uwchraddio i E-SIMS ar gyfer gwell signal ffôn symudol.

Mewn seiberddiogelwch, fe wnaethom ddefnyddio'r platfform Lookout i gryfhau diogelwch ffonau symudol, gan gyflawni Sgôr Microsoft Secure cryf o 90.72% a sgôr seiber B+, gyda chynlluniau ar y gweill i wthio'r rhain hyd yn oed yn uwch.



Gwerth am arian



Rhenti fforddiadwy

Ym mis Chwefror 2025, y rhent preifat cyfartalog yn y DU oedd £1,326 y mis, sef 8.1% yn fwy o gymharu â'r un mis yn 2024. Cynyddodd y rhent cyfartalog yn ardal Rhondda Cynon Taf 9.9% i £691, a'n rhent cyfartalog ni oedd £476.

Ym mis Hydref 2024, fe wnaethom ddiweddarau ein polisi gosod rhent. Cydgynhyrchwyd y polisi diwygiedig gyda Thenantiaid, aelodau'r Bwrdd a Swyddogion. Rydym yn parhau i osod rhenti yn seiliedig ar enillion lleol ac mae ein polisi bellach yn sicrhau nad yw'r rhent a godir yn cynrychioli mwy na 23% o incwm cartref (yn seiliedig ar egwyddorion fframwaith Rhent Byw Sefydliad Rowntree). Bydd y polisi yn cael ei gymhwyso i denantiaid newydd a throsglwyddiadau tenantiaid.

Er mwyn lliniaru effaith barhaus yr argyfwng costau byw, fe wnaethom gyflwyno cynllun gweithredu yn cynnwys ymgysylltiad wedi'i dargedu, cymorth drwy gyngor ariannol, ymyrraeth gynnar ar gyfer ôl-ddyledion, cymorth annibynnol gan Gyngor ar Bopeth a chronfa galedi. Yn 2024/25, gostyngodd ôl-ddyledion tenantiaid i 2.7%, y lefel isaf mewn pedair blynedd, cyfanswm o £1,556,093.

Gwerth am arian

Ein nod yw bod yn fusnes cynaliadwy sy'n cydbwysu costau ac effeithlonrwydd er mwyn darparu'r gwerth ariannol a chymdeithasol gorau ar gyfer ein cwsmeriaid, ein cartrefi a'n cymunedau. Mae'r dirwedd economaidd wedi parhau i fod yn heriol a phrin yw'r adnoddau sydd gennym, gan gynnwys cronfeydd, i gyflawni ein nodau strategol. Fel cwmni cymunedol cydfuddiannol, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ac adfywio ein cymunedau, ynghyd â gwella llesiant unigolion. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, yn deg ac yn ddarbodus.

Mae'r fforwm yn cynnwys cydweithwyr o bob cwr o'r sefydliad sy'n cwrdd bob chwarter. Mae'r grŵp yn ceisio sicrhau arbedion ac effeithlonrwydd ar draws Trivallis a hyrwyddo dull gwerth am arian sy'n amrywio o newidiadau gweithredol cynyddol bach i benderfyniadau strategol (megis gosod cyllideb a chaffael ar raddfa fawr).

Mae aelodau'r grŵp yn gyfrifol am hyrwyddo gwerth am arian ar draws Trivallis, nodi arbedion gwerth am arian posibl, rheoli caffael a chontractau i gyflawni gwerth am arian a gosod cyllidebau gyda ffocws ar werth am arian. Ar ôl nodi arbedion posibl, maent wedyn yn gyfrifol am reoli a monitro mentrau i sicrhau bod yr arbedion yn cael eu gwireddu.

Mae'r cynnydd yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Sicrwydd a'r Bwrdd. Rhoddir diweddariadau rheolaidd i'n Panel Gweithredu Tenantiaid.

Pwrrpas a Chwmpas

Wrth edrych ymlaen at 2025/26, bydd y grŵp yn ymgymryd â gweithgarwch o dan dri llinyn allweddol:

Busnes fel arfer

Dangos effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau ar draws y sefydliad. Bydd hyn yn cynnwys adolygiadau gwasanaeth o bob tîm ar sail dreigl.

Gwerth ychwanegol

Cipio a monitro'r gwerth ychwanegol o'r contractwyr rydym yn eu defnyddio a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu.

Arbedion gwerth am arian

Cytuno a monitro sut rydym yn cynhyrchu ac yn cipio arbedion effeithlonrwydd cost i gefnogi'r gyllideb a'r cynllun busnes, gan ddefnyddio traciwr costau.

Un o dasgau cyntaf y grŵp fydd cynnig fframwaith gwerth am arian y gallwn ei gyflwyno ar draws y sefydliad a chyda deiliaid cyllideb i ddechrau ymwreiddio ethos gwerth am arian yn yr holl waith a wnawn.



Meysydd ffocws yn 2025/26

Ein bwriad yw cadw rhagolygon gwerth am arian cadarnhaol ym mhopeth a wnawn wrth symud ymlaen. Bydd rhai meysydd ffocws yn y flwyddyn i ddod yn cynnwys:

- Cipio'r gwerth cymdeithasol sy'n deillio o gyflogi prentisiaid.
- Mentrau i barhau i uwchsgilio cydweithwyr mewnol i leihau costau is-gontractwyr.
- Nodi ffyrdd amgen o ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i leihau costau.
- Cyflwyno mwy o swyddogaethau hunanwasanaeth drwy'r porth tenantiaid.
- Adolygu ein trwyddedau Microsoft.
- Defnyddio dadansoddeg ragfynegol i leihau gwaith ymatebol a'n helpu i gynllunio'n rhagweithiol.
- Defnyddio dull rhagoriaeth gwasanaeth ac adolygu prosesau allweddol gyda meddylfryd darbodus.
- Mentrau i leihau milltiroedd ac amser teithio i gydweithwyr.
- Adolygiad tâl gwasanaeth.
- Adolygu prosesau ail-godi tâl.
- Adolygu costau eiddo gwag a phrosesau ail-godi tâl posibl.
- Gwell defnydd o ofod swyddfa.



Meincnodi

Mae meincnodi ein perfformiad yn ein helpu i wella ein gwasanaethau'n barhaus ac yn darparu cyfeirbwynt ar gyfer gweithredu a rheoli newid yn y sefydliad. Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu hadrodd naill ai i Lywodraeth Cymru neu'n fewnol, ac wedi'u nodi yn y tabl canlynol:

Mesur	2025	2024	2023
Cost cynnal a chadw cyffredin fesul uned (£)	£1,469	£1,360	£1,182
Cost atgyweiriadau mawr (cyfalaf a refeniw) fesul uned (£)	£2,074	£1,935	£1,552
Ôl-ddyledion fesul uned tai cymdeithasol (£)	£479	£469	£464
Twf mewn trosiant (%)	4.16%	5.69%	4.88%

Cydnabyddwn effaith barhaus yr argyfwng costau byw ar ein tenantiaid yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Mae'r twf mewn trosiant a gofnodwyd o 4.16%, o gymharu â chynnydd rhent cymdeithasol wedi'i gapio Llywodraeth Cymru o 6.7%, yn tanlinellu ymrwymiad y sefydliad i gynnal tai fforddiadwy i denantiaid. Mae'r duedd hon yn amlwg yn y twf cyson mewn trosiant a welwyd, sy'n parhau i fod yn is na lefel rhent cymdeithasol wedi'i gapio Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynnydd cyson mewn ôl-ddyledion tenantiaid dros y tair blynedd diwethaf yn tynnu sylw at yr heriau parhaus a achosir gan yr argyfwng costau byw. Mewn ymateb, rydym wedi dwysáu'r cymorth i denantiaid, gyda'r tîm Arbed Arian yn cynorthwyo 3,164 o denantiaid y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gan sicrhau £5.4 miliwn o gymorth ariannol. Ar ben hynny, rydym wedi ymdrechu i gadw'r codiadau rhent yn is na'r cap a argymhellir gan Lywodraeth Cymru, sef 6.7% ar gyfer 2024/25.

Mae'r pwysau chwyddiant parhaus yn parhau i effeithio ar weithgareddau atgyweirio arferol a mawr, gyda ffactorau geowleidyddol sydd wedi arwain at gynnydd mewn costau deunyddiau i denantiaid yn gwaethygu'r sefyllfa. Mewn ymateb, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i flaenoriaethu gwerth am arian yn ein trafodaethau contractiol, gan sicrhau bod tenantiaid yn elwa ar atebion costeffeithiol heb gyfaddawdu ar ansawdd.

Rydym hefyd wedi cynyddu buddsoddiadau yn ein rhaglen amnewid cydrannau i warantu bod eiddo'n bodloni gofynion diogelwch ac yn cyd-fynd â safonau rheoleiddio, gan feithrin amgylchedd byw diogel a chydymffurfiol i denantiaid.

Perfformiad ariannol

Mae'r perfformiad ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 yn adlewyrchu twf cyson mewn trosiant, cronfeydd wrth gefn a'r llif arian cadarnhaol sy'n deillio o weithgareddau gweithredol. Er gwaethaf heriau ariannol parhaus o fewn y sector, gan gynnwys pwysau costau byw ar denantiaid, y galw cynyddol am atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw ar draws y stoc dai a chwyddiant uchel parhaus sy'n cael ei sbarduno gan ansicrwydd geowleidyddol a phwysau tariffau, mae'r sefydliad wedi cynnal ei sefydlogrwydd ariannol.

Yn ystod y flwyddyn, dyrannwyd buddsoddiad o £33 miliwn i weithgareddau amrywiol, wedi'u sbarduno'n bennaf gan y gwaith o ehangu'r biblinell ddatblygu. Mae'r cynnydd hwn wedi'i ategu gan reolaeth ariannol gadarn, gan ein galluogi i symud ymlaen tuag at ein hamcanion strategol uchelgeisiol.

Rydym hefyd yn cynnal cylch rhagfynegi blynyddol cynhwysfawr, gan ymgorffori profion senarios i sicrhau gwydnwch a dangos gallu'r sefydliad i wrthsefyll heriau annisgwyl.



Datganiad Incwm Cynhwysfawr	2024/25 £'000	2023/24 £'000	2022/23 £'000	2021/22 £'000	2020/21 £'000
Trosiant	66,328	63,683	60,254	57,674	56,730
Gwarged Gweithredu	9,384	9,334	7,437	11,770	12,023
Gorswm Gweithredu	14.1%	14.7%	12.3%	20.4%	21.2%
Gwarged ar weithgareddau cyffredin cyn treth	6,610	6,715	2,916	5,701	9,518
Elw cyn Treth	10.0%	10.5%	4.8%	9.9%	16.8%
Yswiriant Llog (EBITDA)	616.1%	395.8%	483.2%	502.9%	615.7%
Yswiriant Llog (EBITDA MRI)	157.6%	136.9%	185.7%	230.7%	414.5%

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol	2024/25	2023/24	2022/23	2021/22	2020/21
Asedau Sefydlog	238,413	209,156	195,874	190,905	186,395
Asedau Cyfredol/ (Rhwymedigaethau)	16,523	23,258	23,932	17,767	15,919
Credydwy'r Tymor Hir	(50,119)	(42,989)	(37,458)	(41,181)	(50,125)
Benthyciadau	(58,622)	(50,000)	(49,728)	(49,527)	(53,456)
Cronfeydd wrth gefn	146,195	139,424	132,620	117,964	98,733
Gerio	62.7%	49.6%	47.2%	54.1%	69.8%

Datganiad Llif Arian Parod	2024/25	2023/24	2022/23	2021/22	2020/21
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu	24,869	16,903	19,635	23,939	23,172
Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi	(33,027)	(14,768)	(13,277)	(14,132)	(8,695)
Llif arian parod net o weithgareddau ariannu	5,494	(3,575)	(3,528)	(7,849)	(3,506)
(Gostyngiad) / Cynnydd mewn Arian Parod	(2,664)	(1,440)	2,831	1,958	10,971

Rheoli trysorlys



Mae ein Pwyllgor Cyllid a Buddsoddi yn cyflawni swyddogaeth hanfodol yn goruchwyllo ein gweithgareddau rheoli trysorlys. Mae'r gweithgareddau hyn yn cwmpasu'r gwaith o reoli buddsoddiadau a llif arian parod y sefydliad, ei drefniadau bancio, ei farchnad arian, ei farchnadoedd cyfalaf, a'i drafodion deiliadol, yn ogystal â'i bortffolio diogelwch. Y prif nod yw rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny'n effeithiol a cheisio cyflawni'r perfformiad gorau posibl sy'n gyson â'r risgiau hynny.

Mae'r pwyllgor hefyd yn goruchwyllo ein strategaeth drysorlys, polisi rheoli trysorlys, a pharmedrau risg trysorlys. Mae ein rheolau euraid, sy'n llymach na lefelau cyfamod, yn sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau sy'n ddarbodus ac yn diogelu'r sefydliad. Mae'r dull hwn yn gwarantu gorswm diogel bob amser.

Fe wnaethom ddiweddarau ein cyfamodau yn ystod y flwyddyn i ddarparu mwy o gapasiti ar gyfer buddsoddi, ac mae ein benthycwyr yn mynnu ein bod yn cyflawni tri chyfamod allweddol o fewn y cytundebau benthyciad, sef:

- Yswiriant llog EBITDA yn unig.
- Gerio hanesyddol (cymhareb dyled i ecwiti).
- Yswiriant asedau (y gallu i ad-dalu dyled drwy ddiddymu asedau).

Drwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom gydymffurfio â'r holl reolau a chyfamodau euraid. Mae ein cynllun busnes hirdymor yn rhagweld cydymffurfiaeth barhaus â'r cyfamodau hyn am gyfnod y cynllun.



Hylifedd sydd ar gael

Ar 31 Mawrth 2025, roedd gennym £19.9 miliwn o arian parod (2024: £22.6 miliwn) a chyllid dyled o £28 miliwn ar gael ar unwaith (2024: £5 miliwn). Mae ein cyllid a dynnwyd ar hyn o bryd yn dod i gyfanswm o £79.0 miliwn (2023: £68.9 miliwn).

Ffynonellau cyllid a'u proffil aeddfedrwydd

Yn ystod y flwyddyn ariannol, fe wnaethom gytuno ar gyllid newydd i ddisodli cyfleusterau presennol. Roedd hyn yn golygu cael benthyciad tymor newydd o £25 miliwn gyda phroffil aeddfedrwydd 15 mlynedd, a chyfleuster credyd cylchol gwerth £50 miliwn gyda phroffil aeddfedrwydd 5 mlynedd, gan ddileu'r risg ailgyllido i'r sefydliad.

Llywodraethu



Y Bwrdd

Mae Bwrdd y Grŵp yn gyfrifol am fabwysiadu llywodraethu moesegol a chyfreithiol cadarn ac mae'n monitro ei berfformiad yn erbyn Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru. Mae ein Bwrdd hefyd yn goruchwyllo ein rheolaeth ariannol ac yn pennu ein hamcanion strategol. Mae'n derbyn adroddiadau ar ein cynnydd, ein llwyddiannau a'n heriau, gan sicrhau ein bod yn cyflawni ein nodau ac yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio.

Mae'r Bwrdd yn gweithio ochr yn ochr â'r Tîm Arwain Gweithredol a'r Prif Weithredwr i sicrhau bod gan ein tîm arwain yr arbenigedd i arwain y busnes i gyflawni ein hamcanion strategol a chyflawni pethau gwyh.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn ffurfiol o leiaf chwe gwaith y flwyddyn i bennu ein cenhadaeth, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd, monitro cydymffurfiaeth gyfreithiol, adolygu cynnydd yn erbyn ein hamcanion strategol, gwneud penderfyniadau ar gyfeiriad strategol a rheolaethau risg, monitro perfformiad a darparu gwasanaethau a monitro hyfywedd a rheolaeth ariannol. Mae cysylltiad â'n tenantiaid a'n cymunedau yn bwysig i'n Bwrdd ac maent yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn teithiau stoc, teithiau cerdded ystad a digwyddiadau tenantiaid drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd yn cael ei gefnogi gan bum Pwyllgor arbenigol sydd â'r arbenigedd i graffu ar feysydd risg allweddol. Mae ein Bwrdd a'n Pwyllgorau yn darparu her adeiladol i sbarduno diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus. Mae aelodau'r Bwrdd yn sicrhau eu bod yn meddu ar yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion sector a busnes ehangach ac arferion gorau drwy gymryd rhan mewn dwy sesiwn datblygu strategol bob blwyddyn a thrwy fynychu cynadleddau a seminarau allanol.

Mae ein Bwrdd yn cynnwys tri ar ddeg o Gyfarwyddwyr Anweithredol ac un Aelod Annibynnol sy'n darparu arbenigedd arbenigol i'n Pwyllgor Sicrwydd. Mae'r aelodau'n gwasanaethu am dymhorau tair blynedd, ac am uchafswm o naw mlynedd. Mae aelodau'r Bwrdd yn mynd drwy broses recriwtio gystadleuol i sicrhau bod gennym ystod o sgiliau a phrofiad ar draws llywodraethu corfforaethol, cyllid, datblygu strategaeth, datblygu eiddo, rheoli risg a rheolaethau risg, llywodraeth leol a rheoli tai.


Amrywiaeth a chynhwysiant y bwrdd

Rydym yn credu mewn datblygu diwylliant lle mae pawb yn teimlo ei fod yn cael ei gynnwys, gan fod safbwyntiau amrywiol yn arwain at benderfyniadau strategol, mwy ystyrlon. Mae cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant ar ein Bwrdd yn flaenoriaeth i ni.

Ein nod yw meithrin sbectrwm eang o nodweddion demograffig i ddylanwadu'n gadarnhaol ar y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r data isod yn cynnwys tri ar ddeg o Aelodau'r Bwrdd ac un Aelod Pwyllgor Annibynnol. Mae trosiant yn y cyfnod yn adlewyrchu Aelodau'r Bwrdd a'r Aelod Pwyllgor Annibynnol.

Rhywedd	71% Gwryw
	29% Benyw
Ethnigrwydd	93% Gwyn
	7% Grwpiau ethnig eraill
Oedran Cyfartalog	57
Anabled	14% Oes
	86% Nac oes
Trosiant	7%

Ein Pwyllgorau



Mae'r **Pwyllgor Sicrwydd** yn sicrhau bod gan y Grŵp drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a sicrwydd. Mae hefyd yn arwain ar archwilio mewnol ac allanol, iechyd a diogelwch, caffael a gwerth am arian, gan roi sicrwydd i'r Byrddau bod gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol yn cael eu bodloni.

Mae'r **Pwyllgor Cyllid a Buddsoddi** yn gyfrifol am oruchwylio perfformiad ariannol yn fanwl, gan gynnwys cyllidebu, cynllunio busnes, profion straen ac adrodd am gyfrifon rheoli. Mae hefyd yn goruchwylio cymeradwyaeth ariannol caffaeliadau, a chynlluniau datblygu newydd ar ran y Grŵp, gan gynnwys cymeradwyo cynlluniau datblygu masnachol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am werthuso a chymeradwyo unrhyw gyfleoedd busnes newydd o fewn paramedrau strategaeth gyffredinol y Grŵp a goruchwylio gweithgareddau masnachol ac unrhyw is-gwmnïau masnachol ar ran Bwrdd y Grŵp. Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor hefyd yn cynnwys buddsoddiad TGCh hirdymor.

Mae gan y **Pwyllgor Pobl** gyfrifoldeb am gynllunio adnoddau dynol yn strategol i gefnogi cyflawni Cynllun Corfforaethol y Grŵp. Mae hyn yn cynnwys adolygu anghenion arweinyddiaeth y Grŵp yn barhaus ar gyfer rolau gweithredol ac anweithredol ac adolygu trefniadau cyflogaeth a thâl y Grŵp.

Mae'r **Pwyllgor Adfywio a Chynaliadwyedd** yn rhoi sicrwydd i Fwrdd y Grŵp ar gyflawni, perfformiad, ansawdd a gwerth am arian gweithgareddau a gynlluniwyd a gweithgareddau gweithgareddau datblygu gan y Grŵp. Mae hyn yn cynnwys rheoli asedau, rhaglen gynlluniedig a'r rhaglen ddatblygu.

Mae'r **Pwyllgor Tai a Chymunedau** yn rhoi sicrwydd i Fwrdd y Grŵp ar berfformiad, ansawdd a gwerth am arian yr holl wasanaethau a ddarperir i breswylwyr a derbynwyr eraill gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau tai, gwasanaethau cwsmeriaid, cyfranogiad cwsmeriaid a chymunedau, y gwasanaeth atgyweiriadau a'r gwasanaethau llesiant a chymorth. Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb hefyd am oruchwylio datblygiad ac am argymell y Strategaeth Gwasanaethau Tenantiaid a'r Strategaeth Gymunedol i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

Mae gan **Bwyllgor Atodlen 1** gyfrifoldeb ddirprwyedig gan y Bwrdd am bob mater sy'n ymwneud â chymeradwyo'r defnydd o esemptiadau o dan Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1996 a cheisiadau am aelodaeth i ddal cyfranddaliadau.



Aelodau'r Bwrdd



Nick Beckett
Cadeirydd y Bwrdd

Ymunodd ar 09 Chwefror 2023

Ymunodd Nick â'r Bwrdd ym mis Chwefror 2023, gan ddod â chyfoeth o brofiad manwerthu ac eiddo. Yn flaenorol bu'n Bennaeth Gweithrediadau yn Hammerson, gan arwain 1,500 o staff ar draws 11 o ganolfannau siopa yn y DU ac Iwerddon. Mae hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ac Ymddiriedolwr profiadol – bu'n Gadeirydd ar fwrdd Mirus Wales ac, ar hyn o bryd, mae'n Ymddiriedolwr Ffederasiwn Pêl-droed Cerdded Cymru.



Mark Richards
Aelod o'r Bwrdd, Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Adfywio a Chynaliadwyedd

Ymunodd ar 28 Ebrill 2021

Dechreuodd Mark ei yrfa fel syrfëwr mwyngloddio ac adeiladu cyn mynd ymlaen i reoli cynnal a chadw stoc dai. Ar ôl gwasanaethu fel Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru, mae bellach wedi rhannol-ymddeol ac yn cadeirio ein Pwyllgor Asedau a Datblygu. Bu Mark yn Gadeirydd Bwrdd Dros Dro (Ionawr–Mai 2025) ac fe'i penodwyd yn Is-gadeirydd o 1 Gorffennaf 2025.



Carol Kay
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

Ymunodd ar 09 Mawrth 2023

Mae Carol yn uwch arweinydd tai profiadol, yn gyn-Gyfarwyddwr TPAS Cymru ac yn rheoleiddiwr tai i Lywodraeth Cymru, yn canolbwyntio ar amrywiaeth a llywodraethu. Mae hi bellach yn gweithio fel cwnselydd, seicotherapydd, goruchwyliwr a hyfforddwr, gan arbenigo mewn trawma, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae Carol hefyd yn Is-gadeirydd Cymorth i Ferched Caerdydd.



Julian John
Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Tai a Chymunedau

Ymunodd ar 28 Medi 2020

Julian yw Cyfarwyddwr Cyswllt Gweithrediadau (Cymru) Mind. Gyda chymwysterau arweinyddiaeth a thros 30 mlynedd o brofiad, mae'n canolbwyntio ar iechyd meddwl, tai, digartrefedd ac atal hunanladdiad. Mae'n gweithio'n agos gyda byrddau a thimau gweithredol i wella gwasanaethau i bobl agored i niwed, gan sbarduno newid cadarnhaol mewn cymunedau ledled Cymru.



Stephen Brooks

Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl

Ymunodd ar 28 Medi 2020

Mae Steve yn ymgynghorydd, hyfforddwr a chyfarwyddwr anweithredol, ac mae ganddo 25 mlynedd o brofiad mewn strategaeth, arweinyddiaeth a llywodraethu ar draws elusennau a pholisi cyhoeddus. Bu'n Gyfarwyddwr Gweithredol yn Sustrans, ac mae bellach yn rhedeg Steve Brooks Consulting ac yn aelod o Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Mae'n angerddol am gyfiawnder cymdeithasol a sicrhau cartrefi da i bawb.



Angela Priestley

Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Sicrwydd

Ymunodd ar 22 Ebrill 2021

Mae Angela, sy'n Bennaeth Gwasanaethau Corfforaethol mewn cymdeithas dai fawr yng Nghymru, yn arwain llywodraethu, risg, archwilio a strategaeth. Mae hi'n canolbwyntio ar sicrhau uniondeb a chefnogi byrddau i gyflawni cyfrifoldebau cyfreithiol a rheoleiddio. Fel aelod o'r Bwrdd, mae Angela yn helpu i lywio strategaeth a phenderfyniadau i wella cartrefi, cymunedau a chefnogi cynlluniau arweinyddiaeth uchelgeisiol.



William Oliver

Aelod o'r Bwrdd

Ymunodd ar 21 Ebrill 2024

Mae Will, sy'n Gyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Gweithrediaeth GIG Cymru, yn dod â phrofiad helaeth o rolau uwch arwain ym maes gofal iechyd. Yn angerddol am fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella canlyniadau, mae'n arbenigo mewn perfformiad, strategaeth a risg. Mae Will wedi bod yn Gyfarwyddwr Anweithredol yn y sector tai ers naw mlynedd ac yn gwirfoddoli fel Dirprwy Arweinydd Tîm Achub Mynydd Gorllewin y Bannau.



Martyn Price

Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Buddsoddi

Ymunodd ar 21 Ebrill 2021

Mae Martyn yn gyfrifydd siartredig gyda dros 30 mlynedd o brofiad yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae'n arbenigo mewn strategaethau ariannol, cyllid cymdeithasau tai a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n darparu gwerth am arian.



Claire Hutcheon

Aelod o'r Bwrdd a Chynrychiolydd Awdurdod Lleol

Ymunodd ar 30 Gorffennaf 2021

Mae Claire, sy'n Bennaeth Strategaeth Tai yng Nghyngor Rhondda Cynon Taf, yn arwain y strategaeth tai, polisi tai a gwasanaethau grant y sector preifat. Gyda thros 15 mlynedd o brofiad, mae hi'n angerddol am gynnwys preswylwyr wrth wneud penderfyniadau a datblygu strategaethau sy'n darparu cartrefi cynnes, diogel, o ansawdd da i helpu i adfywio cymunedau lleol.



Craig Middle

Aelod o'r Bwrdd a Chynrychiolydd Awdurdodau Lleol

Ymunodd ar 13 Gorffennaf 2023

Mae Craig, Cyfarwyddwr Ymgysylltu â Chyflogwyr Rhanbarthol (De Cymru) y Weinyddiaeth Amddiffyn, yn Filwr Wrth Gefn yn y Fyddin gyda thros 30 mlynedd o wasanaeth. Yn entrepreneur busnes ac arweinydd cymunedol ymroddedig, mae Craig yn cadeirio partneriaethau lleol a grwpiau cyn-filwyr. Mae'n arweinydd Sgowtiaid gydol oes, yn aelod o gyngor Pen-y-Graig ac yn eiriolwr angerddol dros bobl ifanc a chymunedau lleol.



Julia Attwell

Aelod o'r Bwrdd

Ymunodd ar 26 Gorffennaf 2024

Mae Julia yn uwch arweinydd a Chyfarwyddwr Anweithredol gyda phrofiad eang mewn cyfiawnder troseddol, tai ac iechyd. Bu'n Brif Weithredwr Cynorthwyol yng Ngwasanaethau Prawf Cymru, ac mae hi bellach yn arwain Hwb Newid Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae Julia hefyd yn eistedd ar fwrdd Tai Caerdydd YMCA ac mae'n eiriolwr brwd dros weithio mewn partneriaeth.



Martin Lewis

Aelod o'r Bwrdd

Ymunodd ar 26 Gorffennaf 2024

Ymddeolodd Martin yn ddiweddar ar ôl 35 mlynedd yn y sector tai a chyn hynny roedd yn Gyfarwyddwr Datblygu yn BDW (Barratt David Wilson) Homes. Mae'n angerddol am feithrin talent newydd, ar ôl mentora llawer sydd bellach yn dal swyddi uwch yn y sector, ac mae ganddo brofiad sylweddol ym maes datblygu ac arweinyddiaeth tai.



Mark Hallett
Aelod o'r Bwrdd

Ymunodd ar 01 Medi 2024

Mae Mark Hallett, Cyfarwyddwr Anweithredol profiadol a chyn Gyfarwyddwr Datblygu yn igloo Regeneration, yn angerddol am ddatblygu cynaliadwy a chreu cymunedau. Ar hyn o bryd mae'n cadeirio Carbon Neutral Homes, yn gwasanaethu fel NED yn Goram Homes ac yn cynghori buddsoddwyr effaith sy'n seiliedig ar leoedd. Mae Mark yn aelod o Gomisiwn Dylunio Cymru.



Tony Deakin
Aelod Pwyllgor Annibynnol

Ymunodd ar 09 Mawrth 2023

Mae gan Tony dros 25 mlynedd o brofiad o weithio ym maes tai cymdeithasol, gan wasanaethu fel Cyfarwyddwr Gweithredol ac Aelod o Fwrdd gyda nifer o gymdeithasau tai, adrannau tai awdurdodau lleol ac ALMOs. Mae'n Gymrawd o'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

Ymddiswyddiadau Bwrdd 2024/25

Ymddiswyddodd un aelod o'r Bwrdd yn ystod y cyfnod ariannol hwn:

David Michael, Aelod Bwrdd Cyfetholedig

Ymddiswyddodd: 02.07.2024.

Y tîm gweithredol

Mae gweithrediadau dydd i ddydd Trivallis a'i is-gwmnïau, Porthcwlis Limited, Cardiff Bay Homes LLP a Tricwm LLP (y Grŵp), yn cael eu rheoli drwy'r Prif Weithredwr a phedair Cyfarwyddiaeth.



Duncan Forbes **Prif Weithredwr**

Mae Duncan yn arweinydd a chyfreithiwr profiadol â 35 mlynedd o brofiad yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, yn ogystal â mentrau cymdeithasol sy'n eiddo i'r gymuned. Mae ganddo gefndir cryf mewn gweithio gyda chymunedau a grwpiau amrywiol, gan ganolbwyntio ar feysydd fel tai, gwasanaethau cyhoeddus, tlodi, anghydraddoldeb ac adfywio. Mae ganddo ddiddordeb ac arbenigedd penodol mewn rheoli newid, arweinyddiaeth, llywodraethu, rheoleiddio, a chydlynu gwasanaethau cyhoeddus i wasanaethu'r gymuned yn well. Mae'n frwdfrydig ynglŷn â gwella ansawdd bywyd tymor hir drwy wasanaethau ataliol gwell.

Mae Duncan yn arwain y Grŵp ac yn goruchwyllo'r Swyddogaeth Cynnwys Cymunedol yn uniongyrchol.



Lisa Pinney **Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau**

Ymunodd Lisa â Trivallis ym mis Mai 2023 ac mae ganddi dros 15 mlynedd o brofiad o weithio mewn cymdeithasau tai yng Nghymru. Mae ei rôl yn ymdrin â phob agwedd ar gyllid, trysorlys, llywodraethu, caffael, technoleg, data, a gwella grŵp. Hi hefyd yw Ysgrifennydd Cwmni'r Grŵp. Bu'n gyfrifydd cymwysedig ers bron 30 mlynedd ac mae ganddi MA mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Gyda chefnidir proffesiynol mewn tai, addysg a gweithgynhyrchu, mae Lisa yn hyrwyddo gwerth am arian a sut y gall technoleg sbarduno effeithlonrwydd y Grŵp.

Mae Lisa yn gyfrifol am y swyddogaethau corfforaethol gan gynnwys Cyllid, TG, Data a Gwybodaeth, Perfformiad Corfforaethol, Llywodraethu, Risg a Sicrwydd, Arloesedd, Gwella'r Grŵp, Rheoli Incwm, a Chaffael.



Keiron Montague

Cyfarwyddwr Gweithredol Cymunedau

Mae Keiron yn weithiwr tai cymdeithasol proffesiynol sydd â diddordeb brwd mewn trechu tlodi ac adfywio cymunedol. Dechreuodd ei yrfa fel Swyddog Cynnwys y Gymuned ac yna symudodd i waith ieuenctid. Gweithiodd i gymdeithasau tai amrywiol yn y De cyn ymuno â Trivallis yn 2019 fel Pennaeth Datblygu ac Adfywio. Fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Gweithredol ym mis Mawrth 2020. Mae hefyd wedi gwasanaethu fel Cynghorydd yn Rhondda Cynon Taf ac Aelod Cymunedol Annibynnol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae Keiron yn gyfrifol am y swyddogaethau gweithredol gan gynnwys Ymgysylltu â Chwsmeriaid a'r Gymuned, Rheoli Cymdogaethau, Atgyweiriadau Ymatebol, Rheoli Eiddo Gwag, Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio, Rheoli Asedau, Rheoli Ystadau, Datblygu ac Adfywio.



Louise Attwood

Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu

Mae Louise yn gyfrifol am gyflawni ein rhaglenni twf ac adfywio, gan arwain ar sefydlu gweithgareddau gwerthu llwyr a rhentu preifat, yn ogystal â darparu cartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel ledled y De-ddwyrain. Mae hi'n dod â phrofiad helaeth ym maes datblygu ac adfywio tai. Cyn ymuno â Trivallis yn 2024, bu'n gweithio yn y sector tai cymdeithasol ac fel ymgynghorydd eiddo annibynnol, gan reoli prosiectau ar raddfa fawr yn llwyddiannus sydd nid yn unig wedi cynyddu'r stoc dai ond hefyd wedi gwella seilwaith a chydlyniant cymunedol.



Gareth Thomas

Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl

Mae Gareth yn arweinydd profiadol sy'n cael ei sbarduno gan werthoedd. Mae'n arbenigo mewn AD, Newid a Thrawsnewid. Gyda 25 mlynedd o brofiad o arwain newid a thrawsnewid sefydliadol mewn amgylcheddau cymhleth, aml-safle mewn amrywiaeth eang o sectorau diwydiant, mae'n angerddol am alluogi strategaethau busnes i sbarduno canlyniadau drwy greu pwrpas yng ngwaith pobl a'u hysbrydoli i gyflawni. Mae hefyd yn Gadeirydd balch Chwaraeon Anabled Cymru, sefydliad sy'n hyrwyddo cynhwysiant mewn chwaraeon.

Ymunodd Gareth â Trivallis ym mis Mai 2025 ac mae'n gyfrifol am y swyddogaethau corfforaethol gan gynnwys Gwasanaethau Pobl, Datblygu Pobl, Fflyd, Iechyd a Diogelwch a Chyfathrebu.

Kate Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl – Wedi ymddeol
31 Mai 2025

Llywodraethu corfforaethol

Fel cymdeithas dai yng Nghymru, rydym yn cael ein rheoleiddio gan y rheoleiddiwr tai cymdeithasol o fewn Llywodraeth Cymru. Pwrpas rheoleiddio yw diogelu tenantiaid a buddsoddi mewn cymdeithasau tai drwy ddarparu set o reolau sy'n sicrhau ein bod:

- Yn cael ein llywodraethu'n dda.
- Yn darparu cartrefi a gwasanaethau o ansawdd uchel.
- Yn parhau i fod yn hyfyw yn ariannol.

Asesiad rheoleiddiol

Cynhaliwyd ein hasesiad rheoleiddiol diwethaf yn 2023 a chadarnhaodd y Rheoleiddiwr ein bod yn cydymffurfio'n llawn o ran llywodraethu a rheoli, hyfywedd ariannol ac arweinyddiaeth. Mae copi o'r dyfarniad hwn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru (Trivallis Limited – L143).

Llywodraethu a Gwasanaethau Tenantiaid	Cydymffurfio	Mae'r Gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddiol a bydd yn cael goruchwyliaeth reoleiddiol arferol.
Hyfywedd Ariannol	Cydymffurfio	Mae'r Gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddiol a bydd yn cael goruchwyliaeth reoleiddiol arferol.

Hunanasesu

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal hunanasesiad yn erbyn y safonau rheoleiddio ac yn cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys tystiolaeth ategol i ddangos sut rydym yn bodloni'r safonau ac yn amlinellu ein cynllun gwella parhaus ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae copi o'n hunanasesiad ar gyfer 2024-25 ar gael ar ein gwefan.

Cod Llywodraethu Mabwysiedig

Cartrefi Cymunedol Cymru yw llais cymdeithasau tai yng Nghymru. Er mwyn cefnogi llywodraethu da, rydym wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu Tai Cymunedol Cymru 2021 ac rydym yn myfyrio'n rheolaidd ar yr egwyddorion o fewn y cod i lywio ein dull o wella'r ffordd rydym yn gweithio'n barhaus.

Adroddiad y Pwyllgor Sicrwydd

Mae'r Pwyllgor Sicrwydd yn elfen allweddol o'n strwythur llywodraethu, gan oruchwylio a monitro effeithiolrwydd ein dull o reoli risg, archwilio mewnol ac allanol a rheolaethau mewnol.

Mae'r Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan Angela Priestley, uwch arweinydd profiadol iawn ym maes llywodraethu, rheoli risg a chydymffurfiaeth gorfforaethol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol annibynnol gydag arbenigedd arbenigol mewn cyllid a rheoli risg.

Mae'r Pwyllgor yn gosod y blaenoriaethau a'r cynllun gwaith cylchol sy'n cael ei gyflwyno gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau a'r Tîm Sicrwydd pwrpasol. Mae'r data a'r adroddiadau a ddarperir yn galluogi'r Pwyllgor i graffu ar uniondeb ein hadroddiadau ariannol, darparu her gadarn i'n canfyddiadau archwilio mewnol ac allanol ac awgrymu meysydd i'w gwella o fewn ein fframwaith rheolaeth fewnol.

Mae gwaith y Pwyllgor Sicrwydd yn allweddol i roi cyngor, goruchwyliaeth a sicrwydd i'r Bwrdd bod gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol yn cael eu bodloni, a bod prosesau rheoli risg a rheoli mewnol yn effeithiol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y Grŵp yn cyflawni ei amcanion cydfuddiannol cymunedol fel y gallwn barhau i fuddsoddi mewn cartrefi a galluogi cymunedau i ffynnu.

Mae ein darpariaeth archwilio mewnol yn cael ei ddarparu gan Mazars, darparwr gwasanaethau archwilio mewnol i gymdeithasau tai. Mae gennym raglen archwilio dreigl tair blynedd sy'n seiliedig ar risg sy'n cael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor, ac mae gweithrediad argymhellion gwella yn cael ei fonitro ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor.

Mae ein partner archwilio allanol, Haines Watts, wedi bod mewn bodolaeth ers 1930 ac mae'n un o'r cwmnïau cyfrifwyr gorau yn y DU. Mae'r Pwyllgor wedi cymeradwyo'r cynllun archwilio allanol blynyddol ac yn adolygu'r canfyddiadau allweddol, gan gyfarfod â'r archwilydd o leiaf unwaith y flwyddyn heb i'r uwch dîm rheoli fod yn bresennol.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, gyda sesiwn ddatblygu ychwanegol i gynnal sgan gorwel o'r amgylchedd risg ehangach. Adolygwyd effeithiolrwydd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Daethpwyd i'r casgliad bod y Pwyllgor yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol ac mewn ffordd sy'n gymesur, yn gyson, yn dryloyw ac yn atebol.

Rheoli risg

Mae risgiau rheoleiddiol, enw da ac ariannol sylweddol yn gysylltiedig â llawer o'n gweithgareddau. Felly, mae rheoli risg yn effeithiol yn allweddol i'n busnes a chyflawni ein hamcanion corfforaethol.

Mae Bwrdd y Grŵp yn gyfrifol am reoli risg yn gyffredinol ac mae'n pennu parodrwydd y Grŵp i dderbyn risg a'i oddefgarwch i risg. Goruchwylir ein Fframwaith Risg a Sicrwydd gan y Pwyllgor Sicrwydd ac mae'r Bwrdd yn monitro'r prif risgiau busnes a'n hamgylchedd risg allanol ehangach gyda sganio'r gorwel rheolaidd.

Mae ein dull o reoli risg yn canolbwyntio ar y model "tair llinell sicrwydd":

- Llinell sicrwydd gyntaf – Staff a diwylliant, ein polisïau a'n cymwyseddau
- Ail linell sicrwydd – Ein timau cydymffurfio. Mae timau cydymffurfio a llywodraethu arbenigol ar waith i nodi risg a chydymffurfiaeth
- Trydedd linell sicrwydd – Archwiliadau annibynnol gan arbenigwyr trydydd parti, dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Sicrwydd

Risgiau Allweddol	Mesurau Lliniaru Cyfredol ac Arfaethedig
Amgylchedd economaidd allanol Mae methu â chreu gallu i amsugno heriau ariannol yn creu straen ar ein hyfywedd ariannol ac yn effeithio ar ein gallu i gyflawni yn erbyn y Cynllun Corfforaethol.	• Cydymffurfio â rheoliadau • Cynllun busnes 30 mlynedd • Cynllunio ariannol a phrofion straen • Barn archwilio allanol o driniaethau cyfrifyddu
Newid hinsawdd Gallai addasu ein dull o ddatblygu a rheoli amgylcheddol mewn ymateb i newid hinsawdd gynyddu costau ac arafu buddsoddiad mewn cartrefi newydd a phresennol fel y nodir yn y Strategaeth Cartrefi.	• Cynlluniau ymateb i ddigwyddiadau • Diogelu datblygiadau newydd at y dyfodol • Datrysiadau arloesol ar gyfer cartrefi presennol

Risgiau Allweddol	Mesurau Lliniaru Cyfredol ac Arfaethedig
Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau Gallai methu â gweithredu'r cynllun gweithredu bwlch cyflog rhwng y rhywiau effeithio'n negyddol ar foddhad swyddi, sy'n un o brif amcanion y Strategaeth Pobl.	• Dadansoddiad asesu'r farchnad • Dadansoddiad o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau • Prosiect adolygu disgrifiad swydd • Polisi tâl wedi'i ddiweddarau
Deallusrwydd artiffisial Mae'r risgiau yn dal i ddod i'r amlwg, ond mae arwyddion cynnar yn dangos bod risg uwch bosibl o dorri preifatrwydd, rhagfarn algorithmig, manipiwleiddio a rheoliadau aneglur.	• Polisi deallusrwydd artiffisial • Hyfforddi a datblygu staff • Defnyddio profion achos
Ymosodiad seiber Mae risgiau'n cynnwys cael mynediad at ddata personol sy'n arwain at darfu difrifol ar wasanaethau. dwyn hunaniaeth, systemau wedi'u cloi sy'n arwain at bridwerth gwasanaethau sy'n tarfu ar ddata ac yn effeithio ar ddiogelwch ariannol ac enw da.	• Caledwedd a meddalwedd o ansawdd • Monitro rhwydwaith • Profion hacio • Hyfforddi a datblygu staff • Achrediad seiberddiogelwch • Systemau wrth gefn a chynlluniau adfer
Datblygu eiddo Mae methu â darparu eiddo i'r safon ofynnol yn arwain at y posibilrwydd o fethu â chyflawni'r cynllun datblygu a chyflawni'r Strategaeth Cartrefi yn araf.	• Ymgynghorwyr arbenigol • Cynllunio cadarn • Cyllid a grantiau wedi'u sicrhau • Contract datblygu a gwarantau

Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd

Mae'n rhaid i'r Bwrdd baratoi'r Adroddiad Strategol, Adroddiad y Bwrdd a datganiadau ariannol yn ôl y gyfraith. O dan gyfraith Chymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithas Budd Cymunedol, rhaid i'r Bwrdd greu datganiadau ariannol bob blwyddyn sy'n dilyn safonau cyfrifyddu'r DU, gan gynnwys FRS 102. Mae'n rhaid i'r datganiadau hyn roi darlun gwir a theg o berfformiad a sefyllfa ariannol y Grŵp.

Wrth baratoi'r datganiadau hyn, mae'n rhaid i'r Bwrdd:

- Ddewis polisïau cyfrifyddu priodol a'u cymhwyso'n gyson.
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a darbodus.
- Dilyn safonau cyfrifyddu'r DU a'r Datganiad Arferion Argymelledig, gan nodi unrhyw wyriadau sylweddol.
- Asesu a datgelu gallu'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol.
- Defnyddio'r sail busnes gweithredol oni bai na ellir osgoi ei ddatod neu roi'r gorau iddo.

Mae'n rhaid i'r Bwrdd gadw cofnodion ariannol cywir sy'n cydymffurfio â deddfau perthnasol ac sy'n galluogi paratoi datganiadau ariannol cywir. Mae'n rhaid iddo weithredu rheolaethau mewnol i sicrhau cywirdeb y datganiadau hyn a chymryd camau i warchod asedau'r Grŵp rhag twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am gynnal cyfanrwydd yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol ar wefan y Grŵp, gan gydnabod y gall deddfau datganiadau ariannol y DU fod yn wahanol i'r rhai hynny mewn gwledydd eraill.

Busnes gweithredol

Ar ôl adolygu cyllideb 2025/26 y Grŵp, cynllun 30 mlynedd y Grŵp a gweithdrefnau strategol, mae'r Bwrdd o'r farn bod gan y Grŵp ddigon o adnoddau i barhau i weithredu am ddeuddeg mis o leiaf (cyfnod busnes gweithredol) o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

Datgelu gwybodaeth i'r archwilydd

Mae aelodau'r Bwrdd yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'n hysbys i'r archwilydd. Mae pob aelod wedi cymryd camau angenrheidiol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o wybodaeth archwilio berthnasol a bod yr archwilydd yn cael gwybod.

Archwilydd Allanol

Mae Menzies LLP wedi cytuno i barhau fel archwilydd y Grŵp.

Cymeradwywyd gan y Bwrdd a llofnodwyd ar ei ran gan:



.....
Nick Beckett, Cadeirydd

31 Gorffennaf 2025

Datganiad rheolaeth fewnol

A ninnau'n landlord cymdeithasol cofrestredig, mae Llywodraeth Cymru yn mynnu ein bod yn adrodd ar reolaethau mewnol. Rheolaethau mewnol yw'r systemau a'r prosesau a roddwn ar waith i leihau risg i'r eithaf, bodloni rhwymedigaethau rheoleiddiol a sicrhau bod gwybodaeth ac asedau'r busnes yn aros yn ddiogel.

Mae rheolaethau mewnol effeithiol yn golygu y gallwn sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio yn y meysydd lle y mae'r angen mwyaf amdanynt.

Mae elfennau allweddol y system rheolaeth fewnol yn sicrhau:

- Bod cyfrifoldebau'n cael eu rhannu rhwng y Bwrdd, Pwyllgorau a'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, gyda chylch gwaith clir ar gyfer pob un.
- Bod polisïau a gweithdrefnau ffurfiol ar waith sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnwys dogfennau sy'n ymwneud ag awdurdod dirprwyedig i Bwyllgorau, Cyfarwyddwyr Gweithredol a staff; a systemau gwybodaeth allweddol sy'n cyfyngu'n ffisegol ar ddefnyddio asedau Trivallis heb awdurdod.
- Mae cyllidebau a rhagfynegiadau gyda dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd, gan ganiatáu i'r Bwrdd fonitro'r prif risgiau busnes a pherfformiad ariannol yn erbyn y cynlluniau gweithredol ac ariannol a osodwyd ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ynghyd â'r tymor canolig a'r tymor hir. Cynhyrchir cyfrifon rheoli yn fisol ac adroddir ar amrywiadau perthnasol o gyllidebau ac ymchwiliir iddynt, fel y bo'n briodol.
- Cyflogir aelodau staff profiadol a chanddynt gymwysterau addas, ac mae eu perfformiad yn cael ei fonitro drwy system arfarnu flynyddol a chyfarfodydd un-i-un rheolaidd.
- Mae cyfarwyddwyr yn adrodd i'r Pwyllgor Sicrwydd bob tri mis ar unrhyw eitemau a allai effeithio ar reolaethau mewnol a'u heffeithiolrwydd. Roedd yr asesiad rheoleiddiol a gyhoeddwyd ar 06/10/2023 yn wyrdd ar gyfer Hyfywedd Ariannol, Llywodraethu a Gwasanaethau i Denantiaid.
- Mae'r Pwyllgor Sicrwydd yn adolygu'r fframwaith sicrwydd, adroddiadau gan reolwyr, yr archwilydd mewnol a'r archwilydd allanol, i asesu effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith a sicrhau bod prosesau'n cael eu dilyn yn gywir. Cymerir camau unioni i gywiro'r gwendidau a amlygir ac adroddir arnynt i'r Bwrdd a/neu Bwyllgorau yn rheolaidd. Nid oedd unrhyw adroddiadau archwilio mewnol â sicrwydd cyfyngedig yn ystod y flwyddyn.



- Mae'r holl fentrau newydd, ymrwymadau mawr a buddsoddiadau newydd arwyddocaol yn ddarostyngedig i weithdrefnau awdurdodi ffurfiol yn unol â'r Cynllun Awdurdod Dirprwyedig.
- Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn edrych ar raglenni gwella parhaus ar gyfer y prif feysydd busnes ac yn adolygu cynnydd wrth weithredu newidiadau gweithredol mawr a amlygwyd mewn cynlluniau gweithredol.
- Mae'r Bwrdd wedi datblygu datganiadau parodrwydd i dderbyn risg sy'n rhoi fframwaith clir i'r Tîm Gweithredol a'r Tîm Uwch Reoli weithredu, gan ganiatáu arloesedd wrth ddatblygu busnes ar yr un pryd â sicrhau bod llywodraethu gweithredol yn flaenoriaeth allweddol o hyd.

- Mae'r Bwrdd wedi cynnal adolygiad ffurfiol o effeithiolrwydd rheolaethau rheoli risg a rheolaethau mewnol sy'n bodoli yn y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025. Ystyriwyd bod yr holl reolaethau ariannol eu natur yn effeithiol. Mae'r fframwaith rheolaethau mewnol wedi cael ei adolygu'n rheolaidd a'i gryfhau, ac mae fframwaith rheoli mewnol llawn ar waith yn unol ag arfer gorau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector.

Cymeradwywyd gan y Bwrdd a llofnodwyd ar ei ran:



.....
Nick Beckett, Cadeirydd
31 Gorffennaf 2025



Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Trivallis Limited

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Trivallis Limited (y 'Gymdeithas') a'i is-gwmni (y Grŵp) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol o incwm cynhwysfawr, y Datganiad Cyfunol a Chymdeithas o Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Cyfunol a Chymdeithas o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol yn nodyn 1. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith gymwys a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Gymdeithas ar 31 Mawrth 2025 ac o incwm a gwariant y Grŵp ac incwm a gwariant y Gymdeithas ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, Rheoliadau Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol

(Cyfrifon Grŵp) 1969, atodlen 1 Deddf Tai ac Adfywio 2008 a Phenderfyniad Cyffredinol Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015.

Sail y farn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran o'n hadroddiad ar gyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r adran datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol ar y Grŵp a'r Gymdeithas yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn.

Casgliadau ynglŷn â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Bwrdd o'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gennym, nid ydym wedi amlygu unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol am allu'r Grŵp neu'r Gymdeithas i barhau fel busnes

gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Bwrdd mewn perthynas â busnes gweithredol wedi'u disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

O ran ein cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol, neu'r wybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Os amlygwn anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni benderfynu p'un a oes camddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gamddatgan perthnasol yn yr wybodaeth arall. Os dewn i'r casgliad, ar sail y gwaith a gyflawnwyd gennym, fod camddatgan perthnasol o ran yr wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn am y materion a ragnodir o dan Gylchlythyr Cymdeithasau Tai RSL 02/10 "Rheolaethau mewnol ac adrodd"

Yn ein barn ni, mewn perthynas â datganiad y Bwrdd ar reolaeth ariannol fewnol:

- mae'r Bwrdd wedi darparu'r datgeliadau sy'n ofynnol gan y Cylchlythyr ac nid yw'r datganiad yn anghyson â'r wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni o'n gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn ei gylch mewn perthynas â'r materion canlynol y mae Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 neu Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 yn mynnu ein bod yn adrodd arnynt i chi, os, yn ein barn ni:

- nad yw'r Gymdeithas wedi cynnal system foddhaol o reolaeth dros drafodion; neu
- nad yw'r Gymdeithas wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw datganiadau ariannol y Gymdeithas yn cytuno â'r llyfrau cyfrifon; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol at ddibenion ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y datganiad cyfrifoldebau'r Bwrdd a amlinellwyd ar dudalen 38, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am y gyfryw reolaeth fewnol ag y mae'r Bwrdd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatganiadau o bwys, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am asesu gallu'r Grŵp a'r Gymdeithas i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol, fel y bo'n berthnasol, a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Bwrdd yn bwriadu datod y Grŵp a'r Gymdeithas neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddo unrhyw ddewis amgen realistig heblaw am wneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn â ph'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd rhag camddatgan perthnasol, p'un a achoswyd hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli.

Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol pe gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd

defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Manylir isod ar i ba raddau y gall ein gweithdrefnau ddatgelu afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll: Rydym yn amlygu ac asesu risgiau camddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, yn dylunio a chyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymatebol i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

Mae ein gweithdrefnau cynllunio yn amlygu'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n berthnasol i weithrediadau a datganiadau ariannol y Gymdeithas. Adolygir y rhain yn fewnol gyda'r tîm archwilio gan gynnwys profiad a disgwyliadau perthnasol o'r diwydiant yn ogystal ag yn allanol gyda'r rheolwyr cleient. Y deddfau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn oedd; Safon Adrodd Ariannol (FRS) 102, Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, Deddf Tai ac Adfywio 2008 a Phenderfyniad Cyffredinol Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015.

Pan fyddant wedi'u hamlygu, rydym yn asesu risgiau camddatganiadau perthnasol o ran y deddfau a'r rheoliadau, afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, ac yn addasu ein profion yn unol â hynny. Mae ein gweithdrefnau archwilio yn cynnwys:

- Holi'r Bwrdd ac adolygu gohebiaeth a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd am dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau perthnasol. Adolygwyd rheolaethau sydd ar waith gan y Bwrdd hefyd, lle y bo'r angen, i sicrhau cydymffurfiaeth.

- Cawsom ddealltwriaeth o'r rheolaethau sydd ar waith gan y Bwrdd i atal a chanfod twyll.
- Holwyd y Bwrdd ynglŷn ag unrhyw achosion o dwyll a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.
- Trafodwyd risg twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau a thwyll o fewn y tîm archwilio a chynlluniwyd a chynhaliwyd profion i fynd i'r afael â'r rhain. Amlygwyd y potensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: deddfau yn gysylltiedig ag adeiladu a darparu tai cymdeithasol, gan gydnabod natur gweithgareddau'r Grŵp a natur reoleiddiedig gweithgareddau'r Grŵp.
- Gwerthuso priodoldeb polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig a wnaed gan y Bwrdd.
- Gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, a ph'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau sy'n sail iddynt mewn modd sy'n cyfleu darlun teg.
- Adolygwyd datgeliadau datganiadau ariannol a phrofwyd dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod.
- Holwyd y Bwrdd ynglŷn ag ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl.
- Cyflawnwyd gweithdrefnau dadansoddol i amlygu unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl a allai fod yn arwydd o risgiau camddatgan perthnasol o ganlyniad i dwyll.

- Wrth fynd i'r afael â'r risg twyll drwy ddiystyru rheolaethau mewnol, profwyd priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac aseswyd p'un a oedd y dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl.

Rydym yn cyfathrebu â'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a amlygwn yn ystod ein harchwiliad.

Er bod yr archwiliad wedi'i gynllunio a'i gynnal yn unol ag ISAs (UK) mae risg na ellir ei hosgoi na fydd camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol yn cael eu canfod oherwydd cyfyngiadau cynhenid yr archwiliad, ac oherwydd eu natur, bod unrhyw achosion o'r fath o dwyll neu afreoleidd-dra yn debygol o gynnwys cyd-gynllwynio, ffugio, camliwio bwriadol neu ddiystyru rheolaethau mewnol.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n Hadroddiad Archwilwyr.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd mewn perthynas â Chylchlythyr Tai i Gymru HFW 02/10 "Rheolaethau mewnol ac adrodd"

Rydym yn adolygu p'un a yw datganiad y Bwrdd ar reolaeth ariannol fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth y Gymdeithas â Chylchlythyr Cymdeithasau Tai RSL 02/10 "Rheolaethau mewnol ac adrodd" ac adroddwn ar b'un a yw'r datganiad yn gyson â'r wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni o'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i ni ffurfio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Gymdeithas na'i rheolaeth ariannol fewnol.

Defnyddio'r Adroddiad

Gwneir yr adroddiad hwn i aelodau'r Gymdeithas yn unig, fel corff, yn unol â gofynion adran 87 Rheoliadau Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac Adran 128 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008, a Phenderfyniad Cyffredinol Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallem ddatgan i aelodau'r Gymdeithas y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd ac nid am unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw am y Gymdeithas ac aelodau'r Gymdeithas fel corff, ar gyfer ein gwaith archwilio, yr adroddiad hwn, na'r farn a ffurfiwyd gennym.

Menzies LLP

5ed Llawr Tŷ Hodge,
114–116 Heol Eglwys Fair,
Caerdydd
CF10 1DY



Datganiadau Ariannol y Gymdeithas a'r Grŵp

Datganiad Incwm ar gyfer y Cyfnod
1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025


	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2025	2024	2025	2024
	£'000	£'000	£'000	£'000
TROSIANT	66,328	63,683	66,307	63,662
Llai: costau gweithredu	(56,944)	(54,349)	(56,944)	(54,349)
GWARGED GWEITHREDU	9,384	9,334	9,363	9,313
(Colled)/Gwarged ar ailbrisio eiddo buddsoddi	358	1,566	358	1,566
Incwm Difidend				
Gwarged ar werthu asedau sefydlog	570	(2)	570	(2)
Llog sy'n dderbyniadwy ac incwm tebyg	350	718	350	718
Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg	(4,052)	(4,901)	(4,052)	(4,901)
GWARGED AR WEITHGAREDDAU CYFFREDIN CYN TRETH	6,610	6,715	6,589	6,694
Treth ar warged ar weithgareddau cyffredin	-	-	-	-
GWARGED AR WEITHGAREDDAU CYFFREDIN AR ÔL TRETHIANT	6,610	6,715	6,589	6,694
Elw/(colled) ailfesur a gydnabyddir ar gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig	160	90	160	90
Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	6,770	6,805	6,749	6,784
Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn y gallir ei briodoli i:				
Y Gymdeithas (rhiant-gwmni)	6,768	6,803	6,749	6,784
Cyfrannau anreolaethol	2	2	-	-
Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	6,770	6,805	6,749	6,784

Mae trosiant a threuliau'r Grŵp a'r Gymdeithas i gyd yn ymwneud â gweithrediadau sy'n parhau.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 1 i 41 gan y Bwrdd ar XXXX ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan



Nick Beckett
Cadeirydd y Bwrdd
31/07/2025




Lisa Pinney
Ysgrifennydd y Cwmni
31/07/2025

Datganiad o Newidiadau i Gronfeydd wrth Gefn y Grŵp

	Cyfalaf cyfranddaliadau	Cyfrif incwm a gwariant	Cyfanswm ac eithrio cyfran anreolaethol	Cyfran anreolaethol	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 1 Ebrill 2023	2	132,679	132,681	(61)	132,620
Cyfanswm incwm cynhwysfawr					
Gwarged ar gyfer y flwyddyn		6,713	6,713	2	6,715
Colled aifedur a gydnabyddir ar gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig		90	90		90
Cyfanswm incwm cynhwysfawr	-	6,803	6,803	2	6,805
Ar 31 Mawrth 2024	2	139,482	139,484	(59)	139,425
Ar 1 Ebrill 2024	2	139,482	139,484	(59)	139,425
Cyfanswm incwm cynhwysfawr					
Gwarged am y flwyddyn		6,608	6,608	2	6,610
Colled aifedur a gydnabyddir ar gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig		160	160		160
Cyfanswm incwm cynhwysfawr	-	6,768	6,768	2	6,770
Ar 31 Mawrth 2025	2	146,250	146,252	(57)	146,195



Nick Beckett
Cadeirydd y Bwrdd
31/07/2025



Lisa Pinney
Ysgrifennydd y Cwmni
31/07/2025


**Datganiad o Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn y Gymdeithas
1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025**

Y Gymdeithas

	Cyfalaf cyfranddaliadau	Cyfrif incwm a gwariant	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
Ar 1 Ebrill 2023	2	133,243	133,245
Cyfanswm incwm cynhwysfawr			
Gwarged ar gyfer y flwyddyn		6,694	6,694
Colled aifsesur a gydnabyddir ar gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig		90	90
Cyfanswm incwm cynhwysfawr	-	6,784	6,784
Ar 31 Mawrth 2024	2	140,027	140,029
Ar 1 Ebrill 2024	2	140,027	140,029
Cyfanswm incwm cynhwysfawr			
Gwarged ar gyfer y flwyddynr		6,589	6,589
Gwarged aifsesur a gydnabyddir ar gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig		160	160
Cyfanswm incwm cynhwysfawr	-	6,749	6,749
Ar 31 Mawrth 2025	2	146,776	146,778



Nick Beckett
Cadeirydd y Bwrdd
31/07/2025



Lisa Pinney
Ysgrifennydd y Cwmni
31/07/2025


Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2025

	Nodyn	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
		2025	2024	2025	2024
		£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau sefydlog anniriaethol	8	1,141	1,072	1,141	1,072
Eiddo, peiriannau ac offer					
Eiddo tai	9	225,389	196,424	225,307	196,424
Asedau sefydlog diriaethol eraill	10	4,031	4,085	4,112	4,085
Buddsoddi mewn is-gwmnïau	11	-	-	425	425
Eiddo buddsoddi	12	7,852	7,575	7,852	7,575
		238,413	209,156	238,836	209,581
ASEDAU CYFREDOL					
Stoc	13	196	205	196	205
Masnach a dyledwyr eraill	14	6,331	6,499	6,331	6,499
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	21	19,917	22,581	19,915	22,579
		26,444	29,285	26,442	29,283
Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	15	(9,921)	(6,027)	(9,759)	(5,844)
Asedau/(rhwymedigaethau) cyfredol net		16,523	23,258	16,683	23,439
CYFANSWM ASEDAU LLAI		254,936	232,414	255,519	233,020
RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL					
Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	16	(108,165)	(92,371)	(108,165)	(92,371)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadaus	17	(576)	(620)	(576)	(620)
Rhwymedigaethau pensiwn LGPS	24	-	-	-	-
ASEDAU NET		146,195	139,425	146,778	140,029
CYFALAF A CHRONFEYDD WRTH GEFN					
Cyfalaf cyfranddaliadau		2	2	2	2
Cyfrif incwm a gwariant		146,250	139,482	146,776	140,027
Cyfran anreolaethol		(57)	(59)	-	-
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN		146,195	139,425	146,778	140,029

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 1 i 41 gan y Bwrdd ar 31/7/25 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan



Nick Beckett
Cadeirydd y Bwrdd
31/07/2025




Lisa Pinney
Ysgrifennydd y Cwmni
31/07/2025

Datganiad Llif Arian Parod y Grŵp ar gyfer y Cyfnod
1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025

	2025		2024	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Arian parod net a gynhyrchir o weithgareddau gweithredu		24,869		16,903
Treth a dalwyd	-		-	
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi				
Llog a dderbyniwyd	350		717	
Prynu eiddo tai cymdeithasol	(40,538)		(21,065)	
Prynu eiddo buddsoddi	0		-	
Prynu asedau sefydlog diriaethol eraill	(246)		(118)	
Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol	(359)		(295)	
Derbyn grantiau'r llywodraeth nad ydynt yn refeniw	7,196		5,994	
Enillion o werthu asedau sefydlog diriaethol	570		(2)	
Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(33,027)		(14,769)
Gweithgareddau cyllido				
Llog a dalwyd	(2,791)		(2,589)	
Tynnu cyfleuster benthyciad i lawr	59,306		-	
Cyfleuster les cyllid	(1,021)		(987)	
Ad-dalu benthyciadau	(50,000)		-	
Llif arian parod net o weithgareddau cyllido		5,494		(3,576)
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod		(2,664)		(1,443)
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 1 Ebrill 2024		22,581		24,022
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth 2025		19,917		22,581



Nick Beckett
Cadeirydd y Bwrdd
31/07/2025




Lisa Pinney
Ysgrifennydd y Cwmni
31/07/2025

**Datganiad Llif Arian y Gymdeithas ar gyfer y Cyfnod
1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025**

	Nodyn	2025		2024	
		£'000	£'000	£'000	£'000
Arian parod net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu	21		24,869		16,903
Treth a dalwyd					
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi					
Llog a dderbyniwyd	21	350		718	
Prynu eiddo tai cymdeithasol	9	(40,538)		(21,065)	
Prynu eiddo buddsoddi	12	-		-	
Prynu asedau sefydlog diriaethol eraill	10	(246)		(118)	
Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol	8	(359)		(295)	
Derbyn grantiau'r llywodraeth nad ydynt yn refeniw	16	7,196		5,994	
Enillion o werthu asedau sefydlog diriaethol	3	570		(2)	
Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi			(33,027)		(14,768)
Gweithgareddau cyllido					
Llog a dalwyd	21	(2,791)		(2,589)	
Tynnu cyfleuster benthyciad i lawr	16	59,306		-	
Cyfleuster les cyllid	16	(1,021)		(987)	
Ad-dalu benthyciadau	21	(50,000)		-	
Llif arian parod net o weithgareddau cyllido			5,494		(3,576)
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod			(2,664)		(1,441)
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 1 Ebrill 2024			22,579		24,020
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth 2025			19,915		22,579



Nick Beckett
Cadeirydd y Bwrdd
31/07/2025



Lisa Pinney
Ysgrifennydd y Cwmni
31/07/2025

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025

Nodyn 1 – Polisïau cyfrifyddu

Datganiad cydymffurfio

Mae Trivallis yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 sydd wedi'i chorffori yng Nghymru. Mae ei swyddfa gofrestredig ar ar dudalen 7.

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon ("FRS 102") fel y bo'n gymwys i ddatganiadau ariannol y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Datganiad Arfer Argymelledig "Cyfrifyddu gan Ddarparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig" a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2019 ("SORP 2018") a Phenderfyniad Cyffredinol Gofynion Cyfrifyddu ar Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod Trivallis yn Endid Budd Cyhoeddus, fel y'i diffinnir gan FRS 102. Prif amcan Endid Budd Cyhoeddus yw darparu nwyddau neu wasanaethau er budd y cyhoedd, y gymuned neu'r gymdeithas a lle y darperir unrhyw ecwiti gyda'r bwriad o gefnogi prif amcanion yr endid yn hytrach na chynhyrchu elw ariannol i ddarparwyr ecwiti, cyfranddalwyr neu aelodau.

Sail paratoi

Cymeradwywyd datganiadau ariannol Trivallis gan y Bwrdd ar 31 Gorffennaf 2025. Fel yr amlinellir yn Adroddiad y Bwrdd, paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol ac mae'r cyfarwyddwyr o'r farn bod hyn yn briodol am y rhesymau canlynol. Mae'r Grŵp yn paratoi a chymeradwyo cynllun busnes 30 mlynedd bob blwyddyn. Cymeradwywyd y cynllun busnes diweddaraf gan y Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o effaith cyfres o senarios niweidiol difrifol ond credadwy a allai effeithio ar y cynllun. Mesurwyd yr effeithiau hyn yn erbyn cyfamodau benthyciadau, ynghyd â champau gweithredu lliniarol a amlygwyd i leihau costau.

Ar ôl adolygu cyllidebau'r Grŵp ar gyfer 2025 a sefyllfa ariannol tymor canolig y Grŵp, fel y manylir yn y cynllun busnes 30 mlynedd, mae'r Bwrdd o'r farn, o ystyried dirywiadau niweidiol difrifol ond credadwy, bod gan y Grŵp adnoddau digonol i barhau i fodloni ei rwymedigaethau dros y cyfnod o 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (y cyfnod asesu busnes gweithredol).

I ddod i'r casgliad hwn, mae'r Bwrdd wedi ystyried y ffactorau canlynol:

- Costau cynnal a chadw – modelwyd senarios cyllideb a chynllun i ystyried cynnydd mewn costau, mae effaith oedi ar raglenni gwella a chynlluniwyd a sensitifrwydd wedi cael eu cynnwys i ddeall costau posibl yn y dyfodol yn ymwneud â datgarboneiddio a gwaith diogelwch tân.
- Rhent a thâl gwasanaeth sy'n dderbyniadwy – cynhaliwyd adolygiad ar y polisi rhent a thâl gwasanaeth ym mis Rhagfyr 2025 i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor mewn amgylchedd economaidd a rheoleiddiol newidiol yn ogystal â fforddiadwyedd parhaus i denantiaid.
- Hylifedd – mae cyfleusterau arian parod sydd ar gael ar hyn o bryd a benthyciadau heb eu defnyddio yn rhoi cryn sicrwydd ar gyfer gwariant ymrwymedig a llif arian a ragwelir eraill yn ystod cyfnod yr asesiad busnes gweithredol.
- Gallu'r grŵp i wrthsefyll senarios niweidiol eraill i wahanol risgiau gweithredol ac economaidd fel cyfraddau llog uwch a chynnydd yn nifer yr eiddo gwag, i ddeall sensitifrwydd ansicrwydd yn y dyfodol a'r posibilrwydd o'i liniaru.

Mae'r Bwrdd yn credu bod gan y Grŵp ddigon o gyllid ac mae'n disgwyl i'r Grŵp gydymffurfio â'i gyfamodau benthyciad mewn digwyddiadau senarios dirywiad sylweddol.

O ganlyniad, mae'r Cyfarwyddwyr yn hyderus y bydd gan y Grŵp ddigon o gyllid i barhau i fodloni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus am 12 mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol, ac felly maen nhw wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi mewn Sterling, sef arian cyfred gweithredol y Grŵp, a'u talgrynnu i'r £'000 agosaf.

Sail cyfuno

Mae datganiadau ariannol y Grŵp yn cyfuno datganiadau ariannol Trivallis a'i is-gwmnïau ar 31 Mawrth bob blwyddyn.

Mae is-gwmnïau'n cael eu cyfuno o'r dyddiad caffael. Dyma'r dyddiad pan fydd y Grŵp yn cyflawni rheolaeth. Diffinnir hyn fel y pŵer i reoli polisïau ariannol a gweithredu endid i gael buddion o'i weithgareddau. Mae is-gwmnïau'n aros wedi'u cyfuno hyd nes y bydd y Grŵp yn peidio â bod â rheolaeth, ac mae unrhyw fuddiant lleiafrifol cyfranddalwyr eraill yn cael ei ddileu yn unol â FRS102.

Mae endidau y mae gan y Grŵp fuddiant ynddynt, ac sy'n cael eu rheoli ar y cyd gan y Grŵp ac un neu fwy o fentrau eraill o dan drefniant contractiol, yn cael eu trin fel cyd-fentrau ac yn cael eu cyfrif gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Mae endidau heblaw am ymgymeriadau is-gwmni neu fentrau ar y cyd y mae gan y Grŵp fuddiant cyfranogol ynddynt, ac sy'n cael eu rheoli ar y cyd gan y Grŵp ac un neu fwy o fentrau eraill o dan drefniant contractiol, yn cael eu trin fel cyd-fentrau ac yn cael eu cyfrif gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Yn natganiadau ariannol y Gymdeithas, mae buddsoddiadau mewn cwmnïau cysylltiedig, cyd-fentrau ac is-gwmnïau yn cael eu cyfrif ar sail pris cost llai amhariad.

Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu allweddol

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn golygu bod angen i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y symiau a adroddir ar gyfer asedau a rhwymedigaethau ar ddyddiad y fantolen a'r symiau a adroddwyd ar gyfer incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn. Seiliodd y Grŵp ei amcangyfrifon a'i dybiaethau ar bamedrau a oedd ar gael ar yr adeg y paratowyd y datganiadau ariannol cyfunol. Fe allai amgylchiadau presennol a thybiaethau ynglŷn â datblygiadau yn y dyfodol newid o ganlyniad i amgylchiadau'r farchnad, deddfwriaeth neu amgylchiadau eraill sydd y tu hwnt i reolaeth y Grŵp. Adlewyrchir newidiadau o'r fath yn y tybiaethau a'r amcangyfrifon pan fyddant yn digwydd.

Mae'r dyfarniadau canlynol wedi cael yr effaith fwyaf sylweddol ar symiau a gydnabuwyd yn y datganiadau ariannol.

Oes ddefnyddiol amcangyfrifedig eiddo, peiriannau ac offer

Ar ddyddiad cyfalafu asedau sefydlog diriaethol, mae'r Grŵp yn amcangyfrif oes ddefnyddiol yr ased yn seiliedig ar farn a phrofiad rheolwyr. O ganlyniad i arwyddocâd buddsoddiad cyfalaf i'r Grŵp, fe allai amrywiadau rhwng yr oes economaidd wirioneddol ac amcangyfrifedig effeithio ar ganlyniad y Grŵp yn gadarnhaol neu'n negyddol.

Darpariaethau

Mae'r amcangyfrif o swm y ddarpariaeth yn cyfateb i wariant tebygol y Grŵp i setlo ei rwymedigaeth. Os na ellir amcangyfrif swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy, ni chofnodir darpariaeth, ac ystyrir bod y rhwymedigaeth yn rhwymedigaeth ddigwyddiadol. Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau y mae risg sylweddol y gallent achosi addasiad perthnasol i werth cario'r darpariaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf fel a ganlyn:

- Buddion cyflogaeth tymor byr – cost hawl cyflogeion i wyliau sy'n weddill ar ddyddiad y fantolen.
- Hawliadau yswiriant – nifer yr hawliadau sy'n weddill ac amcangyfrifon o gostau setlo.
- Cerbydau ar les – amllder difrod damweiniol.
- Gwarant amgylcheddol – newidiadau i'r gyfradd llog a gymhwysir i'r cyfrifiad darpariaeth neu gost sylfaenol y rhwymedigaeth bosibl.

Cynllun pensiwn buddion diffiniedig

Mae cyflogeion Trivallis yn gymwys i ymuno â Chronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sy'n gynllun llywodraeth leol. Cynllun buddion cwbl ddiffiniedig yw hwn. Mae ased neu rwymedigaeth cynllun pensiwn buddion diffiniedig y Grŵp, a asesir gan actiwariaid bob cyfnod, wedi'i seilio ar dybiaethau allweddol gan gynnwys cyfraddau gostyngol, cyfraddau marwolaethau, chwyddiant, costau cyflogau yn y dyfodol a chostau pensiwn yn y dyfodol. Fe allai'r tybiaethau hyn, yn unigol neu ar y cyd, amrywio o'r canlyniadau gwirioneddol. Gweler nodyn 24 am fanylion.

Trethiant a threthiant gohiriedig

Er bod Trivallis yn cael ei drin fel elusen at ddibenion treth, mae gweithgareddau nad ydynt yn elusennol yn cael eu gwneud yn Cardiff Bay Homes LLP. Mae hyn yn creu tâl trethiant Grŵp ac ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, mae angen gwneud dyfarniad wrth bennu'r ddarpariaeth ar gyfer Treth Gorfforaeth. Mae'r Grŵp yn cydnabod rhwymedigaethau ar gyfer materion treth disgwylidig yn seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau ar ddyddiad y fantolen.

Pan fydd canlyniad treth terfynol yr uchod yn wahanol i'r symiau a gofnodwyd yn wreiddiol, bydd gwahaniaethau o'r fath yn effeithio ar y ddarpariaethau treth cyfredol a threth ohiriedig yn y flwyddyn pan wneir dyfarniad o'r fath. Fe allai canlyniad yr eitemau treth hyn arwain at symudiadau perthnasol cyfrif incwm a gwariant a llif arian.

Asedau anniriaethol – meddalwedd gyfrifiadurol

Unig asedau anniriaethol y Grŵp yw meddalwedd gyfrifiadurol a chostau datblygu cysylltiedig. Cydnabyddir hyn fel cost wrth gaffael. Mae meddalwedd gyfrifiadurol yn cael ei dibrisio dros bum mlynedd.

Eiddo, peiriannau ac offer

Cost eiddo tai

Eiddo tai a ddosberthir fel eiddo, peiriannau ac offer yw'r rhai hynny a roddir ar osod fel rhent cymdeithasol. Fe'u datganir ar bris cost llai dibrisiant.

Rhennir eiddo tai yn bedwar math, sef:

1. Cyfalafwyd yr eiddo a brynwyd oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 10 Rhagfyr 2007 am ddim cost gan fod y gwaith a oedd yn ofynnol er mwyn iddynt gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru a'u cynnal ar y lefel honno wedi arwain at brisiad negyddol yn deillio o'r llifoedd arian parod gostyngol dros 30 mlynedd. Cyfalafir gwelliannau a gwaith mawr dilynol ar bris cost i wella budd economaidd yr ased.
2. Eiddo a brynwyd lle mae'r gost yn gost caffael yr eiddo yn ogystal â ffioedd cysylltiedig a gwaith sy'n ofynnol er mwyn iddynt allu cael eu defnyddio.

3. Datblygiad newydd lle mae cartrefi newydd yn cael eu comisiynu a'u hadeiladu. Mae cost datblygu eiddo'n cynnwys y canlynol:

- Cost tir ac adeiladau.
- Ffioedd proffesiynol.
- Costau rheoli sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r cynllun datblygu.
- Mae taliadau cyllid a gafwyd yn ystod y cyfnod datblygu'n cael eu cyfalafu a'u hychwanegu at gost eiddo tai a gwblhawyd yn seiliedig ar fuddsoddiad net y Grŵp a'i gostau benthyca cyfartalog yn ystod y flwyddyn; a
- Darpariaeth ar gyfer cost y gwaith a gwblhawyd ond na thalwyd amdano ar ddiwedd y flwyddyn.

4. Eiddo ar les a adeiladwyd o ganlyniad i drafodyn Cardiff Bay Homes LLP. Mae cost gyfalaf yr eiddo hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cost tir ac adeiladau.
- Ffioedd proffesiynol.
- Costau rheoli sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r cynllun datblygu.
- Mae taliadau cyllid a gafwyd yn ystod y cyfnod datblygu yn cael eu cyfalafu a'u hychwanegu at gost eiddo tai a gwblhawyd yn seiliedig ar y gost sy'n uniongyrchol briodoladwy; a
- Darpariaeth ar gyfer cost y gwaith a gwblhawyd ond na thalwyd amdano ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae cost eiddo tai yn cynnwys costau sy'n uniongyrchol briodoladwy i wneud gwaith arnynt fel eu bod mewn cyflwr da i'w defnydd bwriedig neu ddatblygu eiddo newydd. Diffinnir costau uniongyrchol briodoladwy fel: costau llafur cyflogaion Trivallis sy'n deillio'n uniongyrchol o adeiladu neu gaffael eiddo; a chostau cynyddrannol a fyddai wedi'u hosgoi pe na bai eiddo unigol wedi cael ei adeiladu neu ei gaffael.

Mae unrhyw gostau ofer a geir yn ymwneud â datblygiadau nad ydynt yn symud ymlaen yn cael eu dileu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn y flwyddyn a amlygwyd yn ofer.

Mae gwariant ar eiddo tai presennol yn cael ei gyfalafu i'r graddau ei fod yn gwella budd economaidd ased. Gall gwelliannau o'r fath ddigwydd os ydynt yn arwain at naill ai:

- cynnydd mewn incwm rhent.
- gostyngiad sylweddol mewn costau cynnal a chadw yn y dyfodol; neu
- estyniad sylweddol i oes yr eiddo.

Dim ond prif welliannau elfennol sy'n bodloni'r meini prawf hyn sy'n cael eu cyfalafu ac mae'r rhain yn cael eu dibrisio dros eu rhychwant oes sylfaenol amcangyfrifedig, ar sail llinell syth. Dangosir cyfnodau dibrisiant isod. Mae'r holl gostau eraill yn cael eu dileu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant fel rhai a gafwyd.

Dangosir gwerthu eiddo a ddelir i'w rentu ar y Cyfrif Incwm a Gwariant fel gwargedau neu ddiffygion o werthu asedau sefydlog.

Dibrisiant

Tir rhydd-ddaliadol

Nid yw tir rhydd-ddaliadol yn cael ei ddibrisio.

Eiddo tai

Codir dibrisiant adeiladau, ac eithrio'r gwelliannau a fanylir isod, i leihau'r gwerth llyfr net i'w gwerth gweddilliol amcangyfrifedig ar sail llinell syth ar hyd eu hoes economaidd ddefnyddiol i'r busnes:

- Mae eiddo a adeiladwyd yn draddodiadol yn cael eu dibrisio dros 50 mlynedd.
- Mae eiddo annhraddodiadol yn cael eu dibrisio dros 40 mlynedd.

Eiddo les-ddaliadol

Mae eiddo les-ddaliadol yn cael eu dibrisio ar hyd oes y brydles sy'n weddill ar y dyddiad y dechreuir defnyddio'r eiddo.

Gwelliannau i eiddo tai

Mae'r prif welliannau a gyfalafir yn cael eu dibrisio ar hyd eu rychwant oes sylfaenol amcangyfrifedig, ar sail llinell syth dros y cyfnodau canlynol:

Ceginau	15 mlynedd	Paneli Solar	20 mlynedd
Ystafelloedd ymolchi	25 mlynedd	Nwy prif gyflenwad	50 mlynedd
Boeleri Gwres Canolog	15 mlynedd	Drysau	10 mlynedd
Ail-wifro tŷ cyfan	30 mlynedd	Lifftiau	25 mlynedd
Toeon newydd – Tai	50 mlynedd	Toeon newydd – Fflatiau	30 mlynedd
Ffenestri – Tai	40 mlynedd	Ffenestri – Fflatiau	30 mlynedd
Gwelliannau i eiddo annhraddodiadol	40 mlynedd	Systemau mynediad ar gyfer drysau	20 mlynedd
Systemau chwistrellu dŵr ar gyfer tân	25 mlynedd	Synwryddion Larwm Tân	25 mlynedd
Tân – Pibell godi prif gyflenwad	40 mlynedd (traddodiadol)	Systemau Gwacáu mewn Tân	25 mlynedd
	50 mlynedd (annhraddodiadol)	Arall	10–25 oed

Mae trothwy cost o £1,000 yn berthnasol ar gyfer cyfalafu, er y gallai asedau sy'n costio llai na £1,000 gael eu casglu ynghyd mewn grŵp a'u cyfalafu, os yw'n briodol.

Asedau sefydlog eraill

Cyfrifir dibrisiant i ddileu cost yr ased sefydlog ar sail llinell syth ar hyd ei oes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Mae'r cyfraddau a ddefnyddir fel a ganlyn:

Adeiladau rhydd-ddaliadol	50 mlynedd	Gwelliannau i swyddfa ar les	Ar hyd oes y brydles sy'n weddill
Dodrefn, ffitiadau a gosodiadau	10 mlynedd	Cerbydau	4 blynedd
Offer swyddfa	5 mlynedd	Peiriannau ac offer	4 blynedd
Eiddo ar les	Ar hyd oes y brydles sy'n weddill	Caledwedd gyfrifiadurol	3 blynedd

Eiddo buddsoddi

Mae eiddo a ddelir i gynhyrchu refeniw neu arbrisant cyfalaf yn cael eu dosbarthu fel eiddo buddsoddi ac fe'u delir ar werth teg gyda newidiadau i werth teg yn cael eu nodi'n uniongyrchol ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Cynhelir prisiad bwrdd gwaith yn fewnol gan ddefnyddio mynegai BCIS priodol, a chynhelir prisiad allanol bob pedair blynedd.

Amhariad asedau anariannol

Cynhelir adolygiad blynyddol o ddangosyddion amhariad i eiddo tai ac, os yw'n briodol, cynhelir adolygiad amhariad blynyddol yn unol â FRS 102 (S27) a SORP 2018. Defnyddir y dangosyddion canlynol i benderfynu p'un a oes amhariad:

- Gostyngiad blynyddol i'r mynegai prisiau tai yn Rhondda Cynon Taf rhwng lonawr a Rhagfyr sy'n fwy na 2.5%
- LIBOR 3 mis sy'n uwch na 7.5% neu y disgwylir iddo godi'n uwch na 7.5%
- Colled o fwy na 5% ar eiddo gwag
- Colled o fwy na 6% ar ddrwgddyledion
- Gorwariant o fwy na 10% ar gynnal a chadw ymatebol
- Dileu elfennau sy'n fwy na 5% o ddibrisiant eiddo tai
- Torri cyfamod gwirioneddol neu ragfynedig
- Gorwariant datblygu rhagolygol o fwy nag 20% heb atebolrwydd
- Oedi rhagolygol o fwy na 6 mis wrth drosglwyddo datblygiad heb atebolrwydd

Pan fydd amhariad, gostyngir asedau sefydlog i'w swm adenilladwy a nodir y gostyngiad ar y Cyfrif Incwm a Gwariant.

Diffinnir Unedau sy'n Cynhyrchu Arian Parod yn ôl nodweddion economaidd yr asedau sylfaenol. Mae eiddo a drosglwyddwyd ar sero o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn uned cynhyrchu arian parod unigol. Bydd eiddo newydd a roddwyd ar osod ar rent masnachol ac eiddo newydd a roddwyd ar osod ar rent cymdeithasol yn unedau cynhyrchu arian parod ar wahân, ar sail cynlluniau unigol.

Taliadau cyllid wedi'u cyfalafu

Mae unrhyw daliadau cyllid sy'n uniongyrchol briodoladwy i adeiladu asedau sefydlog diriaethol yn cael eu cyfalafu pan fyddant yn berthnasol.

Asedau a dderbynnir trwy drafodion heb gyfnewid

Mae asedau a dderbynnir trwy drafodion heb gyfnewid (rhoddion a chymynroddion) yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar werth teg os yw hyn yn fwy na throthwy cyfalafu'r Grŵp.

Nid yw asedau na ellir mesur y gwerth teg yn ddibynadwy yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Pan nad oes amodau cysylltiedig â pherfformiad yn y dyfodol yn gysylltiedig â'r gymynrodd neu'r rhodd, nodir gwerth teg yr ased fel incwm. Pan fydd rhwymedigaethau cysylltiedig â pherfformiad yn y dyfodol yn berthnasol, cydnabyddir gwerth teg yr asedau a dderbyniwyd mewn incwm pan gydymffurfir â'r rhain yn unig.

Pan na chydymffurfiwyd â meini prawf cydnabod refeniw, caiff gwerth teg yr ased ei drin fel incwm gohiriedig.

Dylid cydnabod cymynroddion pan fo'n fesuradwy h.y. pan fyddant yn debygol neu pan fydd cyfrifon yr ystad wedi'u cwblhau'n derfynol.

Cydnabod refeniw

Cydnabyddir refeniw i'r graddau bod y Grŵp yn cael yr hawl i ystyriaeth yn gyfnewid am ei berfformiad. Mesurir refeniw ar werth teg ystyriaeth a dderbyniwyd ac eithrio gostyngiadau, ad-daliadau, TAW a threthi neu dollau eraill ar werthiannau.

Pan fydd yr ystyriaeth sy'n dderbyniadwy mewn arian parod neu'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cael ei gohirio ac mae'r trefniant yn gyfystyr â thrafodyn cyllido, mesurir gwerth teg y gydnabyddiaeth fel gwerth presennol yr holl dderbyniadau yn y dyfodol gan ddefnyddio'r gyfradd llog a fewnbynwyd.

Mae incwm rhent a thâl gwasanaeth yn cael ei ddatgan yn glir o golledion eiddo gwag.

Cydnabyddir incwm mewn perthynas â gwasanaethau a ddarparwyd pan fydd y Grŵp wedi cyflawni ei rwymedigaethau cytundebol.

Grantiau'r Llywodraeth

Diffinnir grantiau'r llywodraeth yn SORP 2018 fel "Cymorth gan y llywodraeth ar ffurf trosglwyddo adnoddau i'r endid yn gyfnewid am gydymffurfiaeth ag amodau penodedig sy'n ymwneud â gweithgareddau gweithredu'r endid yn y gorffennol neu'r dyfodol". Mae llywodraeth yn golygu llywodraeth, asiantaethau'r llywodraeth a chyrrff tebyg, p'un a ydynt yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol.

Cydnabyddir grantiau'r llywodraeth pan fydd y Grŵp wedi cydymffurfio â'r amodau gofynnol ac mae sicrwydd y bydd y grant yn cael ei dderbyn.

Mae grantiau'r llywodraeth sy'n ymwneud ag eiddo tai a ddelir ar bris cost yn cael eu cyfrifyddu gan ddefnyddio'r model croniadau a'u hamorteiddio ar hyd oes yr asedau cysylltiedig.

Mae'r rhan heb ei hamorteiddio o grantiau a dderbynnir yn cael ei ddal ar wahân yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol fel grant gohiriedig.

Pan fydd asedau a ariennir gan grant yn cael eu gwaredu ac nad oes gofyniad i ad-dalu'r grant, mae'r rhan heb ei hamorteiddio'r grant yn cael ei rhyddhau fel incwm. Mae grantiau sy'n ad-daladwy yn cael eu cyfrif gan ddefnyddio amcangyfrif gorau rheolwyr o'r rhwymedigaeth.

Yn unol â'r model croniadau, mae grantiau cysylltiedig â refeniw yn cael eu rhyddhau i'r cyfrif Incwm a Gwariant yn ystod y cyfnod pan gydnabyddir y costau cysylltiedig.

Derbynnir HFG dros gyfnod o 30 mlynedd ac mae llog yn dderbyniadwy gan Lywodraeth Cymru, ar gyfanswm gwerth cyfalaf y grant, yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae gwerth presennol net yr HFG sy'n dderbyniadwy ar hyd y tymor talu cytunedig yn cael ei gydnabod fel grant cyfalaf a dyledwr gohiriedig.

Pan dderbynnir y taliadau grant, mae'r dyledwr yn lleihau yn ôl yr elfen gyfalaf a'r gwahaniaeth rhwng hyn, ac mae swm y grant a dderbynnir yn cael ei gredydu i warged neu ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr fel cyfraniad tuag at gost cyllido'r cynllun hwnnw. Mae'r gyfradd ostyngol a ddefnyddir ar gyfer y cyfrifiadau gwerth presennol net yr un fath â honno sy'n berthnasol i'r benthyca cysylltiedig i ariannu'r asedau tai.

Ystyrir bod elfen grant cyfalaf HFG a dderbyniwyd yn flaenorol yn ad-daladwy ar ôl gwaredu ased tai cysylltiedig.

Grantiau anlywodraethol

Mae grantiau a dderbynnir o ffynonellau anlywodraethol yn cael eu cyfrif gan ddefnyddio'r model perfformiad fel a ganlyn:

- Mae grant nad yw'n gosod gofynion perfformiad penodol ar y Grŵp yn y dyfodol yn cael ei gydnabod fel refeniw pan fydd yr enillion yn cael ei dderbyn neu'n dderbyniol.
- Mae grant sy'n gosod amodau penodedig yn gysylltiedig â pherfformiad yn y dyfodol yn cael ei gydnabod fel refeniw pan fodlonir yr amodau cysylltiedig â pherfformiad yn unig.
- Mae grant a dderbynnir cyn i'r meini prawf cydnabod refeniw gael eu bodloni yn cael ei gydnabod fel rhwymedigaeth.

Stociau

Mae stociau'n cael eu datgan ar bris cost neu werth gwireddadwy net, pa un bynnag sydd isaf. Mae'r gost yn cynnwys yr holl gostau a gafwyd wrth ddod â phob eitem i'w lleoliad a'i chyflwr presennol. Mae gwerth gwireddadwy net wedi'i seilio ar y pris gwerthu amcangyfrifedig llai unrhyw gostau pellach a ddisgwylir wrth gwblhau a gwaredu.

Offerynnau ariannol

Mae Trivallis wedi dewis cymhwyso Adrannau 11 a 12 o FRS 102 mewn perthynas ag offerynnau ariannol. Mae Offerynnau Ariannol yn cynnwys eitemau fel symiau masnach sy'n dderbyniadwy, symiau masnach sy'n daladwy a benthyciadau banc syml. Mesurir benthyciadau banc yn ôl cost wedi'i hamorteiddio. Mae symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac yn daladwy yn cael eu dosbarthu fel asedau cyfredol neu rwymedigaethau cyfredol ac fe'u mesurir yn ôl y swm arian parod heb ostyngiad y disgwylir ei dalu neu ei dderbyn.

Dyledwyr a chredydwyr tymor byr

Mae dyledwyr a chredydwyr tymor byr heb gyfradd llog ddatganedig sy'n dderbyniadwy ac yn daladwy o fewn blwyddyn yn cael eu cofnodi yn ôl pris y trafodyn. Mae unrhyw golledion o ganlyniad i amhariad yn cael eu cydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant mewn treuliau gweithredu eraill.

Trafodion cyllido

Mae asedau ariannol sylfaenol, lle mae'r trefniant yn gyfystyr â thrafodyn cyllido, yn cael eu mesur yn ôl gwerth presennol y derbyniadau yn y dyfodol gyda gostyngiad ar gyfradd llog y farchnad.

Benthyciadau consesiynol endid budd cyhoeddus

Mae benthyciadau endid budd cyhoeddus yn fenthyciadau a wneir neu a dderbynnir gan endid budd cyhoeddus neu aelod o grŵp endid cyhoeddus ar gyfradd llog islaw honno sy'n gyffredin yn y farchnad. Nid ydynt yn ad-daladwy ar gais ac fe'u gwneir i ddatblygu amcanion yr endid budd cyhoeddus neu riant-gwmni'r endid budd cyhoeddus.

Mae benthyciadau endid budd cyhoeddus a wneir neu a dderbynnir gan y Grŵp yn cael eu cydnabod yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol fel y swm a delir neu a dderbynnir, ynghyd â llog cronedig. Pan na ellir adennill benthyciad, cydnabyddir colled amhariad mewn incwm a gwariant.

Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian parod yn y banc ac ar law ac adneuon tymor byr â dyddiad aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai.

Benthyciadau sy'n dwyn llog

Mae'r holl fenthyciadau sy'n dwyn llog sy'n offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg i ddechrau, gan gynnwys costau trafodion ac fe'u mesurir wedi hynny yn ôl cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol.

Prydlesi

Mae prydlesi yn cael eu dosbarthu'n brydlesi cyllid pryd bynnag y bydd telerau'r brydles yn trosglwyddo holl risgiau a buddion perchnogaeth i'r Grŵp i raddau helaeth. Mae'r holl brydlesi eraill yn cael eu dosbarthu'n brydlesi gweithredu..

Mae asedau a ddelir o dan brydlesi cyllid yn cael eu cydnabod i ddechrau ar werth teg yr ased a brydlesir (neu os yw'n is, ar werth presennol lleiafswm y taliadau prydles). Mae'r atebolrwydd cyfatebol i'r prydleswr yn cael ei gynnwys yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol fel rhwymedigaeth prydles gyllid. Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng taliadau cyllid a'r gostyngiad yn y rhwymedigaeth brydles i gyflawni cyfradd adenillion gyson ar falans yr atebolrwydd sy'n weddill. Mae taliadau cyllid yn cael eu cynnwys yn llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg yn y cyfrif incwm a gwariant. Mae asedau a ddelir o dan brydlesi cyllid yn cael eu dal mewn eiddo, peiriannau ac offer ac yn cael eu dibrisio ar hyd y lleiaf o dymor y brydles ac oes economaidd ddefnyddiol yr asedau. Fe'u hasesir ar gyfer colledion amhariad yn yr un ffordd ag asedau a berchnogir.

Mae rhenti dibynnol yn cael eu cydnabod fel traul yn y cyfnod pan fyddant yn digwydd.

Mae taliadau prydles o dan brydlesi gweithredu'n cael eu codi ar y cyfrif incwm a gwariant ar sail llinell syth ar hyd tymor y brydles.

Mae cymhellion prydles yn cael eu cydnabod ar hyd tymor y brydles ar sail llinell syth.

Mae costau trafodion sy'n ymwneud ag asedau a gaffaelir o dan brydlesi cyllid yn cael eu hychwanegu at werth y swm a gydnabyddir fel ased.

Lle y bo'n berthnasol, mae costau trafodion sy'n ymwneud ag asedau a gaffaelir o dan brydlesi gweithredu yn cael eu cydnabod fel ased a'u hamorteiddio ar hyd oes y brydles.

Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

Cydnabyddir darpariaeth pan fydd gan y Grŵp rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol oherwydd digwyddiad yn y gorffennol, mae'n debygol y bydd angen all-lif buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth a phan ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r rhwymedigaeth.

Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r ystyriaeth sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd, o ystyried y risgiau a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r rhwymedigaeth.

Pan fydd effaith gwerth amser arian yn berthnasol, cydnabyddir y swm y disgwylir y bydd ei angen i setlo'r rhwymedigaethau fel gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ostyngol cyn treth. Cydnabyddir dileu'r gostyngiad yn raddol fel cost ariannol yn y cyfrif incwm a gwariant yn ystod y cyfnod pan fydd yn codi.

Buddion cyflogeion

Buddion tymor byr

Cydnabyddir buddion tymor byr, gan gynnwys tâl gwyliau a buddion anariannol eraill tebyg, fel traul yn y cyfnod pan dderbynnir y gwasanaeth.

Cynllun pensiwn buddion diffiniedig

Mae Trivallis yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), a weinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("CBSRhCT"). Mae'r LGPS yn gynllun buddion diffiniedig a ariennir lle mae buddion a enillwyd hyd at 31 Mawrth 2014 yn cael eu seilio ar gyflog terfynol. Mae buddion a enillir ar ôl 31 Mawrth 2014 yn cael eu seilio ar Gynllun Enillion wedi'u Hail-Brisio Cyfartaledd Gyrfa.

Y rhwymedigaeth a gydnabyddir yn y fantolen mewn perthynas â'r cynllun pensiwn buddion diffiniedig yw gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig llai gwerth teg asedau'r cynllun ar y dyddiad adrodd.

Cyfrifir y rhwymedigaeth buddion diffiniedig gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol. Mae'r Grŵp yn cyflogi actiwariaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth bob blwyddyn. Pennir y gwerth presennol trwy ddisgowntio taliadau a ddisgwylir yn y dyfodol gan ddefnyddio arenillion y farchnad ar fondiau corfforaethol o ansawdd uchel.

Pennir yr elfen llog net trwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt i falans net y rhwymedigaeth buddion diffiniedig a gwerth teg asedau'r cynllun. Cydnabyddir y gost hon yn y cyfrif incwm a gwariant fel llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg.

Mae enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau profiad yn cael eu nodi yn incwm cynhwysfawr arall. Mae'r symiau hyn, ynghyd â'r adenillion ar asedau'r cynllun, llai symiau sydd wedi'u cynnwys yn llog net sy'n daladwy, yn cael eu datgelu fel ailfesuriad o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig net.

Adrodd ar sylweddau trafodion mewn perthynas â gwella'r eiddo

Caffaelwyd y Stoc Dai oddi wrth CBSRhCT ar sail wedi'i gwella, a lluniwyd is-gontract (cytundeb datblygu) ar yr un pryd i ymgymryd â rhaglen o waith gwella ar ran CBSRhCT (a adwaenir fel Lloches TAW).

Mae FRS 102.2.8, sy'n datgan y dylai trafodion gael eu cyfrifyddu a'u cyflwyno yn unol â'u sylwedd yn hytrach na'u ffurf gyfreithiol yn unig, wedi cael ei chymhwyso i'r trafodion cyfatebol. Felly, cyfrifir am wariant o dan y cytundeb datblygu fel y mae'n digwydd, dros 20 mlynedd, yn hytrach nag fel trafodyn a ddigwyddodd yn gyfreithlon ar y dyddiad trosglwyddo. Bydd y TAW ar y trafodyn cychwynnol yn cael ei hadennill dros gyfnod 20 mlynedd y Cytundeb Datblygu.

Trethiant

Mae Trivallis yn cael ei drin fel elusen at ddibenion trethiant. Cadarnhawyd hyn gan Gyllid a Thollau EF (CTHEF) ar 20 Tachwedd 2007. O ganlyniad, mae'r gwargedau sy'n deillio o weithgareddau prif ddiben elusennol y tu allan i gwmpas treth gorfforaeth. Adolygir y driniaeth hon bob blwyddyn yn unol â'r gweithgareddau y mae Trivallis yn ymgymryd â nhw i sicrhau bod yr esemptiad yn berthnasol o hyd.

Mae gweithgareddau nad ydynt yn brif ddiben elusennol y mae Trivallis neu ei is-gwmnïau yn ymgymryd â nhw yn ddarostyngedig i dreth gorfforaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth gymwys. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gymhwysir fel a ganlyn:

Treth gyfredol

Cydnabyddir trethiant cyfredol mewn perthynas â threth gorfforaeth sy'n daladwy o ran elw cyfnodau adrodd cyfredol neu flaenorol, gan ddefnyddio'r deddfau a'r cyfraddau treth a ddeddfwyd neu a ddeddfwyd yn sylweddol erbyn y dyddiad adrodd.

Treth ohiriedig

Mae treth ohiriedig yn codi mewn perthynas â gwahaniaethau amseru rhwng elw trethadwy ac elw cyfrifyddu fel y'i datganir yn y datganiadau ariannol. Mae'r gwahaniaethau amseru hyn yn deillio o gynnwys incwm a threuliau mewn asesiadau treth mewn cyfnodau sy'n wahanol i'r rhai hynny pryd y'u cydnabyddir yn yr offerynnau ariannol.

Cydnabyddir treth ohiriedig ar yr holl wahaniaethau amseru ar y dyddiad adrodd heblaw am yr eithriadau canlynol. Mae colledion treth heb eu rhyddhau ac asedau treth ohiriedig eraill yn cael eu cydnabod dim ond i'r graddau ei bod yn debygol y byddant yn adenilladwy yn erbyn gwrthdroi rhwymedigaethau treth ohiriedig neu elw trethadwy arall yn y dyfodol.

Mesurir treth ohiriedig gan ddefnyddio'r deddfau a'r cyfraddau treth a ddeddfwyd neu a ddeddfwyd yn sylweddol erbyn y dyddiad adrodd ac y disgwylir iddynt fod yn berthnasol i wrthdroi'r gwahaniaeth amseru.

Treth ar Werth (TAW)

Mae Trivallis wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Mae'n codi TAW ar rywfaifaint o'i incwm ac yn gallu adennill rhan o'r TAW y mae'n ei thalu ar wariant. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys TAW ar wariant i'r graddau nad yw'n adenilladwy gan CThEF. Mae'r balans TAW sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei gynnwys fel rhwymedigaeth gyfredol neu ased cyfredol, fel y bo'n briodol.

Trafodion partïon cysylltiedig

Amlygir partïon cysylltiedig trwy'r ymarfer datgelu buddiannau blynyddol a gynhelir. Mae'r holl drafodion â phartïon cysylltiedig yn cael eu gwneud ar hyd braich, yn unol â thelerau masnachol arferol ac ni all y partïon cysylltiedig ddefnyddio eu sefyllfa er budd iddynt.



Nodyn 2 – Trosiant, costau gweithredu a chanlyniadau gweithredu – Y GRŴP**Y Grŵp****Nodyn A**

	2025			2024		
	Trosiant	Costau gweithredu	Gwarged gweithredu	Trosiant	Costau gweithredu	Gwarged gweithredu
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tai cymdeithasol ar osod (Nodyn B)	65,893	(56,714)	9,179	62,599	(54,295)	8,305
<i>Gweithgareddau tai cymdeithasol eraill</i>						
Arall	-	-	-	-	-	-
<i>Gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â thai cymdeithasol</i>	435	(230)	205	1,083	(54)	1,029
Cyfanswm	66,328	(56,944)	9,384	63,683	(54,349)	9,334

Nodyn 2 – Trosiant, costau gweithredu a chanlyniadau gweithredu – Y GYMDEITHAS**Y Gymdeithas****Nodyn A**

	2025			2024		
	Trosiant	Costau gweithredu	Gwarged gweithredu	Trosiant	Costau gweithredu	Gwarged gweithredu
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tai cymdeithasol ar osod (Nodyn B)	65,893	(56,714)	9,179	62,599	(54,295)	8,305
<i>Gweithgareddau tai cymdeithasol eraill</i>						
Arall						
<i>Gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â thai cymdeithasol</i>	414	(230)	184	1,062	(54)	1,008
Cyfanswm	66,307	(56,944)	9,363	63,662	(54,349)	9,313

Nodyn 2 – Trosiant, costau gweithredu a chanlyniadau gweithredu

Nodyn B

	Anghenion cyffredinol	Tai gwarchod	Gweithgaredd au Nad Ydynt yn Ymwneud â Thai Cymdeithasol	2025 Cyfanswm	2024 Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Incwm					
Rhent sy'n dderbyniadwy	52,384	3,033	184	55,601	52,464
Incwm tâl gwasanaeth	323	1,309	230	1,862	1,647
Incwm ar gyfer gwasanaethau cymorth – Grantiau Cefnogi Pobl	890			890	949
Grantiau'r Llywodraeth a grantiau eraill a gymerir i incwm	7,300			7,300	7,849
Grant y llywodraeth wedi'i amorteiddio	341			341	243
Incwm tai cymdeithasol arall	313			313	509
Trosiant o dai cymdeithasol ar osod	61,551	4,342	414	66,307	63,662
Cost					
Costau rheoli	(21,297)	(931)	(230)	(22,458)	(21,189)
Gwasanaethau	(1,992)	(906)	-	(2,898)	(2,698)
Cynnal a chadw cyffredin	(15,742)			(15,742)	(14,647)
Gwariant atgyweiriadau mawr (ac eithrio gwariant cyfalaf)	(3,784)			(3,784)	(5,001)
Drwgddyledion	(209)			(209)	(44)
Dibrisiant asedau sefydlog diriaethol	(11,314)			(11,314)	(10,395)
Dibrisiant asedau sefydlog anniriaethol	(442)			(442)	(274)
Dileu asedau sefydlog diriaethol	(97)			(97)	(101)
Costau gweithredu ar dai cymdeithasol	(54,878)	(1,837)	(230)	(56,944)	(54,349)
Gwarged gweithredol ar dai cymdeithasol ar osod	6,674	2,506	184	9,363	9,313
Rhent a gollwyd o ganlyniad i eiddo gwag (nodyn memorandwm)	(1,553)	(158)	(6)	(1,717)	(1,449)

Nodyn 3 - Gwarged ar werthu asedau sefydlog

	Cerbydau	Eiddo tai	2025	2024
	£'000	£'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
Y Grŵp				
Enillion o werthu	7	596	603	-
Cost gwerthu	-	(33)	(33)	(2)
Cyfanswm	7	563	570	(2)
Y Gymdeithas				
Enillion o werthu	7	596	603	-
Cost gwerthu	-	(33)	(33)	(2)
Cyfanswm	7	563	570	(2)

Nodyn 4 – Llog sy’n dderbyniadwy ac incwm tebyg

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2025	2024	2025	2024
	£'000	£'000	£'000	£'000
Incwm Buddsoddi	350	718	350	718

Nodyn 5 – Llog sy’n daladwy a thaliadau tebyg

Y Grŵp

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2025	2024	2025	2024
	£'000	£'000	£'000	£'000
Llog a ffioedd benthyciadau	3,839	4,246	3,839	4,246
Costau a thrafodion wedi’u hamorteiddio	139	605	139	605
Costau cyllid pensiwn	74	50	74	50
Cyfanswm	4,052	4,901	4,052	4,901

Nodyn 6 - Enillion cyfarwyddwyr a chostau staff

Enillion cyfarwyddwyr

Y gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i'r cyfarwyddwyr gweithredol oedd:

Enillion (gan gynnwys buddion mewn nwyddau ond cyn cyfraniadau pensiwn)

Taliadau am wasanaeth cyfarwyddwyr dros dro

Taliadau terfynu

Enillion (ac eithrio cyfraniadau pensiwn) a dalwyd i'r uwch swyddog gweithredol sy'n cael y cyflog uchaf

Taliadau terfynu a wnaed i'r uwch gweithredol sy'n cael y cyflog uchaf

Nifer y cyfarwyddwyr cyflogedig yn y flwyddyn

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2025	2024	2025	2024
	£'000	£'000	£'000	£'000
	527	383	527	383
	-	-	-	-
	-	-	-	-
	527	383	527	383
	153	147	153	147
	-	-	-	-
	5	3	5	3

Nid yw'r Prif Weithredwr yn aelod o gynllun buddion diffiniedig Trivallis, ni chymhwysir unrhyw delerau uwch neu arbennig i'w aelodaeth ac ni wnaeth Trivallis gyfraniad at unrhyw drefniant pensiwn unigol mewn perthynas â'r Prif Weithredwr.

Talwyd cydnabyddiaeth ariannol o £13,686 i Gadeirydd Bwrdd y Grŵp. Derbyniodd Aelodau'r Bwrdd dreuliau o £6,255 (2024: £6,242).

Roedd enillion Cyfarwyddwyr, ac eithrio cyfraniadau pensiwn, yn yr ystodau canlynol:

	Y Grŵp	
	2025 Nifer	2024 Nifer
Blwyddyn Lawn		
£Dim*		
£0-£10,000	14*	9*
£10,001- £20,000	1*	1*
£20,001- £30,000	-	-
£30,001 - £40,000	-	-
£40,001 - £50,000	-	-
£50,001 - £60,000	1	-
£60,001 - £70,000	-	-
£70,001 - £80,000	-	-
£80,001 - £90,000	-	-
£90,001 - £100,000	1	-
£100,001+	3	3

* Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud ag Aelodau'r Bwrdd ac yn cynnwys dau aelod cyfetholedig i'r Bwrdd fel y manylir ar dudalen 46. Nid yw Cyfarwyddwyr Gweithredol yn aelodau o'r Bwrdd.

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2025 £'000	2024 £'000	2025 £'000	2024 £'000
Costau staff				
Costau staff yn ystod y cyfnod:				
Cyflogau	15,673	14,583	15,673	14,583
Costau nawdd cymdeithasol	1,564	1,408	1,564	1,408
Costau pensiwn eraill (gweler Nodyn 24)	2,117	2,138	2,117	2,138
Cyfanswm costau staff	19,354	18,129	19,354	18,129

Nifer y staff bob mis ar gyfartaledd – cyfwerth ag amser llawn, yn cynnwys:

Gwasanaethau Cymorth Canolog, yn cynnwys:

Cyllid, Adnoddau Dynol, Gwasanaeth

Corfforaethol a Gweinyddiaeth

Buddsoddi ac Adfywio

Tai

Gweithredwyr

Cyfanswm

Staff a gyflogir ar ddiwedd y flwyddyn - cyfwerth ag amser llawn

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2025 Nifer	2024 Nifer	2025 Nifer	2024 Nifer
	424	482	424	482
	94	108	94	108
	39	42	39	42
	223	254	223	254
	68	78	68	78
	424	482	424	482
	430	421	430	421

Nodyn 7 - Trethiant y Grŵp

Treth gyfredol

Treth gorfforaeth y DU

Addasiad mewn perthynas â'r cyfnod blaenorol

Cyfanswm treth gyfredol

2025 £'000	2024 £'000
-	-
-	-
-	-
-	-
-	-
-	-
-	-

Treth ohiriedig

Tarddiad a gwrthdroi gwahaniaethau amseru

Addasiad mewn perthynas â chyfnodau blaenorol

Treth ar warged ar gyfer y cyfnod

2025 £'000	2024 £'000
6,749	6,765
1,687	1,691
-	-
-	-
(1,687)	(1,691)
-	-

Cysoni'r gyfradd effeithiol

Gwarged ar weithgareddau cyffredin cyn treth

Elw wedi'i luosi â'r gyfradd treth gyfredol o 25%

Effeithiau

Newidiadau i gyfraddau treth

Addasiad mewn perthynas â'r cyfnod blaenorol

Gwarged anhrethadwy (o ganlyniad i statws Elusennol)

Cyfanswm tâl treth gyfredol

Nodyn 8 – Asedau Sefydlog Anniriaethol y Grŵp a’r Gymdeithas

Y Grŵp	2025 Meddalwedd £'000	2024 Cyfanswm £'000
Cost		
Ar ddechrau'r flwyddyn	3,197	2,902
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	360	295
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	-	-
Ar ddiwedd y flwyddyn	3,557	3,197
Dibrisiant		
Ar ddechrau'r flwyddyn	2,125	1,851
Tâl ar gyfer y flwyddyn	291	274
Dibrisiant ar warediadau	-	-
Ar ddiwedd y flwyddyn	2,416	2,125
Gwerth llyfr net		
Ar ddiwedd y flwyddyn	1,141	1,072
Ar ddechrau'r flwyddyn	1,072	1,051

Nodyn 9 - Asedau Sefydlog Diriaethol y Grŵp a’r Gymdeithas - Tai ac Eiddo Eraill

	Tai eiddo a ddeler i'w gosod	Eiddo tai sy'n cael eu hadeiladu	2025 Cyfanswm £'000	2024 Cyfanswm £'000
Cost	£'000	£'000		
Ar ddechrau'r flwyddyn	283,834	6,724	290,558	269,694
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	18,187	22,267	40,535	20,877
Trosglwyddwyd i'w gosod	14,760	(14,760)	-	-
Trosglwyddwyd i eiddo buddsoddi		-		761
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	(467)	-	(467)	(406)
Amhariad yn ystod y flwyddyn	(250)	-	(250)	(369)
Ar ddiwedd y flwyddyn	316,063	14,231	330,294	290,558
Dibrisiant				
Ar ddechrau'r flwyddyn	94,134	-	94,134	84,434
Tâl ar gyfer y flwyddyn	11,164	-	11,164	10,138
Dibrisiant ar warediadau	(179)	-	(179)	(206)
Dibrisiant ar amhariad	(132)	-	(132)	(231)
Ar ddiwedd y flwyddyn	104,987	-	104,987	94,135
Gwerth llyfr net				
Ar ddiwedd y flwyddyn	211,075	14,231	225,307	196,424
Ar ddechrau'r flwyddyn	189,699	6,724	196,424	185,260

Nifer yr unedau mewn rheolaeth gyffredinol

	2025	2024
	Nifer	Nifer
Anghenion cyffredinol	10,141	10,147
Wedi'u Prydlesu	615	620
Garejys	1,604	1,613
Manwerthu	53	53
Rhent y farchnad	52	32
Eiddo a reolir gan Trivallis	2	2
Cyfanswm	12,467	12,467

Nodyn 10 – Asedau Sefydlog Diriaethol y Grŵp a'r Gymdeithas – Arall

	Adeiladau swyddfa	Offer y cynllun	Cerbydau ac offer swyddfa	2025 Cyfanswm	2024 Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost					
Ar ddechrau'r flwyddyn	5,760	634	2,783	9,177	8,820
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	24	-	222	246	118
Trosglwyddwyd o eiddo buddsoddi	82	-	-	82	284
Gwarediadau yn ystod y flwyddyn	-	-	-	-	(46)
Ar ddiwedd y flwyddyn	5,866	634	3,005	9,506	9,176
Dibrisiant					
Ar ddechrau'r flwyddyn	1,869	520	2,702	5,091	4,880
Tâl ar gyfer y flwyddyn	104	46	151	301	257
Dibrisiant ar warediadau	-	-	-	-	(46)
Ar ddiwedd y flwyddyn	1,973	566	2,853	5,392	5,091
Gwerth Llyfr Net					
Ar ddiwedd y flwyddyn	3,893	68	152	4,112	4,085
Ar ddechrau'r flwyddyn	3,891	113	81	4,085	3,940

Nodyn 11 – Buddsoddiadau

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2025	2024	2025	2024
	£'000	£'000	£'000	£'000
Porthcwlis Limited	-	-	50	50
Cardiff Bay Homes LLP	-	-	375	375
Cyfanswm	-	-	425	425

Nodyn 12 – Y Grŵp a'r Gymdeithas – Eiddo Buddsoddi

	2025 £'000	2024 £'000
Ar ddechrau'r flwyddyn	7,575	5,623
Ychwanegiadau		-
Trosglwyddwyd i Asedau Sefydlog Diriaethol – Arall	(81)	(284)
Gwarediadau		-
(Colled)/Gwarged wrth ailbriso	358	2,236
Ar ddiwedd y flwyddyn	7,852	7,575

Nodyn 13 - Stoc

Dadansoddiad o'r stoc a gedwir:

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2025 £'000	2024 £'000	2025 £'000	2024 £'000
Deunyddiau traul cynnal a chadw	196	205	196	205
Cyfanswm	196	205	196	205

Nodyn 14 – Dyledwyr

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2025 £'000	2024 £'000	2025 £'000	2024 £'000
<i>Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn</i>				
Ôl-ddyledion rhent	5,137	5,049	5,137	5,049
Llai: Darpariaeth ar gyfer drwgddyledion a dyledion amheus	(2,285)	(1,929)	(2,285)	(1,929)
	2,852	3,120	2,852	3,120
Benthyciadau ceir staff a blaendaliadau eraill i staff	33	23	33	23
Dyledwyr a rhagdaliadau eraill	3,278	3,168	3,278	3,168
Cyfanswm	6,163	6,311	6,163	6,311
<i>Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn</i>				
Ôl-ddyledion rhent	299	469	299	469
Llai: Darpariaeth ar gyfer drwgddyledion a dyledion amheus	(131)	(281)	(131)	(281)
	166	188	166	188
Cyfanswm	6,331	6,499	6,331	6,499
Cyfanswm Dyledwyr				

Nodyn 15 - Credydwy: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2025 £'000	2024 £'000	2025 £'000	2024 £'000
Cynnal a chadw a chyflenwadau eraill	1,989	1,473	1,989	1,473
Gwariant cyfalaf ar eiddo tai	3,977	1,577	3,977	1,577
Llog benthyciadau	226	776	226	776
Croniadau ac incwm gohiriedig	1,957	585	1,795	392
Rhagdaliadau rhenti a thaliadau gwasanaeth	1,056	941	1,056	941
Cyflog a chostau eraill cyflogeion	75	108	75	108
Grantiau'r llywodraeth heb eu hamorteiddio	341	267	341	267
Rhyng-gwmni	-	-	-	10
Benthyciadau eraill sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	300	300	300	300
Cyfanswm	9,921	6,027	9,759	5,844

Nodyn 16 – Credydwy: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2025 £'000	2024 £'000	2025 £'000	2024 £'000
Benthyciadau banc	46,315	50,000	46,315	50,000
Benthyciadau eraill	12,306	-	12,306	-
Credydwy'r Eraill	-	-	-	-
Prydlesi cyllid	19,263	18,945	19,263	18,945
Incwm gohiriedig	-	-	-	-
Grantiau'r llywodraeth heb eu hamorteiddio	30,281	23,426	30,281	23,426
	108,165	92,371	108,165	92,371

Dadansoddiad o ddyled:

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2025 £'000	2024 £'000	2025 £'000	2024 £'000
Dyledion heb randaliadau sy'n ddyledus ar ôl mwy na 5 mlynedd	54,432	50,000	54,432	50,000
Rhandaliadau dyledion sy'n ddyledus ar ôl mwy na 5 mlynedd	19,262	18,945	19,262	18,945

Grantiau'r Llywodraeth – Y Grŵp a'r Gymdeithas	2025 £'000	2024 £'000
Ar ddechrau'r flwyddyn	23,426	17,675
Trosglwyddo i gredydwy: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(341)	(243)
Grant a dderbyniwyd	7,196	5,994
Ar ddiwedd y flwyddyn	30,281	23,426

Yn ystod y flwyddyn, ymrwymodd Trivallis i 7 cytundeb benthyciad newydd i ariannu ein hymrwymiad yn y dyfodol i adeiladu cynlluniau datblygu newydd. Y benthyciadau newydd yw:

Benthyciad 1: Ail-ariannu benthyciad presennol gyda Banc Lloyds am £50m dros gyfleuster cylchol 5 mlynedd ar gyfradd llog benthyciad amrywiol, gan ad-dalu'r cyfleuster benthyciad cyfradd sefydlog presennol o £50m. Dim ond £22m a dynnwyd i lawr ar ddiwedd y flwyddyn gyda £28m heb ei dynnu.

Benthyciad 2: Cytunwyd ar fenthyciad newydd o £25m gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality dros 15 mlynedd.

Benthyciad 3: Cytunwyd ar fenthyciad newydd o £10m gan Lywodraeth Cymru dros 20 mlynedd.

Roedd benthyciadau 4–7 yn 4 cytundeb benthyciad gwahanol gwerth cyfanswm o £2.3m gyda Llywodraeth Cymru i ariannu'r gwaith o gaffael Tir i'w ddatblygu dros 5 mlynedd.

Mae benthyciadau Lloyds a'r Principality wedi'u gwarantu gyda thaliadau sefydlog gydag Ymddiriedolwyr M&G yn gweithredu fel Ymddiriedolwyr dros y taliadau hynny. Mae ffioedd trefniant ar gyfer pob benthyciad yn cael eu hamorteiddio dros dymor y benthyciad.

Mae'r rhwymedigaeth prydles gyllid yn ymwneud â threfniant prydles presennol ar gyfer unedau a ddatblygwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Mae'r taliadau prydles yn cynnwys cyfranddaliadau blynyddol sy'n gysylltiedig â'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) a rhoddir manylion lleiafswm taliadau prydles yn nodyn 20.

Nodyn 17 - Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Y Grŵp a'r Gymdeithas

	Hawliadau yswiriant	Cerbydau ar les	Buddion cyflogaeth tymor byr	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans agoriadol ar 1 Ebrill 2024	124	202	291	617
Rhyddhawyd heb ei ddefnyddio	-	-	(6)	(6)
Darpariaeth wedi'i defnyddio	(28)	(68)	-	(96)
Darpariaeth newydd wedi'i gwneud	45	16	-	61
Balans cau ar 31 Mawrth 2025	141	150	285	576

Hawliadau yswiriant arian a neilltuwyd i dalu am werth dros ben hawliadau yswiriant sy'n weddill.

Cerbydau ar les i dalu am ddifrod i gerbydau ar les ar ddiwedd tymor y brydles.

Buddion cyflogaeth tymor byr cost hawl cyflogai i wyliau sy'n weddill ar ddyddiad y fantolen.

Nodyn 18 - Offerynnau Ariannol

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2025	2024	2025	2024
	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau ariannol sy'n offerynnau ecwiti a fesurir ar gost llai amhariad				
Buddsoddiad mewn is-gwmnïau	-	-	50	50
Offerynnau ariannol sy'n offerynnau dyled a fesurir yn ôl cost wedi'i hamorteiddio				
Dyledwyr eraill	5,064	5,350	5,064	5,350
Rhwymedigaethau ariannol a fesurir yn ôl cost wedi'i hamorteiddio				
Benthyciad banc	46,435	50,000	46,435	50,000
Benthyciadau eraill	12,606	300	12,606	300
Prydlesi cyllid	19,271	18,945	19,271	18,945
Credydwyr masnach	4,331	2,446	4,331	2,446
Credydwyr eraill	75	108	65	98

Mae dyledwyr eraill yn ymwneud â gwerth arian parod dyledwyr llai yr addasiad cyfrifyddu ar gyfer rhagdaliadau a chroniadau.

Mae'r benthyciad banc wedi'i ddatgan yn ôl cost wedi'i hamorteiddio ac mae'r manylion yn Nodiadau 15 a 16.

Mae'r brydles gyllid yn ymwneud â phrydlesu stoc dai rhent marchnad a rhent cymdeithasol penodol.

Mae credydwyr masnach yn ymwneud â chynnal a chadw a chyflenwadau eraill yn ogystal â gwariant cyfalaf ar eiddo tai.

Nodyn 19- Cyfalaf cyfranddaliadau nad yw'n ecwiti

	2025	2024
	£	£
Ar ddechrau'r flwyddyn	359	400
Wedi'i gyhoeddi yn ystod y flwyddyn (heb ei dalu)	-	-
Wedi'i ganslo neu ei adbrynu yn ystod y flwyddyn	(18)	(41)
Ar ddiwedd y flwyddyn	341	359

	2025	2024
	Nifer	Nifer
Aelodau sy'n denantiaid	328	351

Mae 1 aelod nad oes ganddo hawliau pleidleisio (Aelod Cysgodol o'r Bwrdd).

Mae'r cyfranddaliadau'n rhoi'r hawl i aelodau bleidleisio mewn Cyfarfodydd Cyffredinol, ond nid yw'r cyfranddaliadau'n rhoi'r hawl i daliadau difidend na dosbarthu wrth ddirwyn i ben. Mae cyfranddaliadau sy'n cael eu canslo neu eu hadbrynu yn cael eu dileu yn ôl i'r cronfeydd wrth gefn. Mae gan yr holl denantiaid sy'n gymwys hawl i un cyfranddaliad. Nid oes uchafswm nifer o gyfranddaliadau y gellir eu cyhoeddi.

Nodyn 20 – Ymrwymadau

Prydlesi gweithredu

Ar 31 Mawrth 2024, mae isafswm ymrwymadau prydles o dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo fel a ganlyn:

Lleiafswmiau sy'n daladwy fel lesddeiliad

- O fewn blwyddyn
- Rhwng dwy flynedd a phum mlynedd
- Ymhen mwy na phum mlynedd

Y Grŵp		Y Gymdeithas	
2025	2024	2025	2024
£'000	£'000	£'000	£'000
1,285	416	1,285	416
2,065	139	2,065	139
-	-	-	-
3,350	555	3,350	555

Lleiafswmiau sy'n dderbyniadwy fel prydleswr

- O fewn blwyddyn
- Rhwng dwy flynedd a phum mlynedd
- Ymhen mwy na phum mlynedd

Y Grŵp		Y Gymdeithas	
2025	2024	2025	2024
£'000	£'000	£'000	£'000
85	85	85	85
133	161	133	161
-	-	-	-
218	247	218	247

Prydlesi Cyllid

Ar 31 Mawrth 2025 mae'r lleiafswm ymrwymadau prydles o dan brydlesi cyllid fel a ganlyn:

Lleiafswmiau sy'n daladwy fel lesddeiliad

- O fewn blwyddyn
- Rhwng dwy a phum mlynedd
- Ymhen mwy na phum mlynedd

Y Grŵp		Y Gymdeithas	
2025	2024	2025	2024
£'000	£'000	£'000	£'000
1,021	1,023	1,021	1,023
4,408	4,417	4,417	4,417
37,872	37,946	37,872	37,946
43,301	43,386	43,301	43,386
-	-	-	-

Ymrwymadau Cyfalaf y Grŵp a'r Gymdeithas

Swm contractau ar gyfer gwariant cyfalaf, na ddarparwyd ar ei gyfer eto

Symiau gwariant cyfalaf a gymeradwywyd gan y Bwrdd ond na chontractiwyd ar eu cyfer:

- Gwariant cyfalaf Lloches TAW 20 mlynedd i 2028 (5 mlynedd ychwanegol o 2023-28)
- Gwariant cyfalaf 30 mlynedd nad yw'n Lloches TAW

2025	2024
£'000	£'000
29,009	17,378
54,337	75,830
750,968	749,458

Bydd ymrwymïadau cyfalaf a amlygwyd yn cael eu cyllido gan y ffrydiau incwm rhent parhaus o'r stoc dai, cyllid llenwi bwlch o £7.3 miliwn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru, a chyfleuster credyd cylchol gwerth £50 miliwn gyda Banc Lloyds a chyllid pellach.

Nodyn 21 – Nodiadau i Ddatganiad Llif Arian Parod y Grŵp

a. Cysoni'r gwarged gweithredu â'r mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2025 £'000	2024 £'000	2025 £'000	2024 £'000
Gwarged gweithredu	9,384	9,334	9,363	9,313
Dibrisiant asedau sefydlog diriaethol	11,465	10,395	11,465	10,395
Amorteiddiad asedau sefydlog anniriaethol	291	274	291	274
Asedau a ddilëwyd	406	338	406	338
Amorteiddio grantiau'r llywodraeth	(341)	(243)	(341)	(243)
Buddion ar ôl cyflogaeth llai taliadau	100	40	100	40
Symudiad mewn darpariaethau	(41)	(105)	(41)	(105)
Gostyngiad/(cynnydd) mewn stocrestrau	9	36	9	36
Symudiad mewn Incwm Gohiriedig	(21)	(21)	-	-
Gostyngiad mewn dyledwyr	(168)	(807)	(168)	(807)
Cynnydd / (gostyngiad) mewn credydwyr	3,785	(2,337)	3,785	(2,337)
Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu	24,869	16,903	24,869	16,903

b. Llif arian parod rhydd

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2025 £'000	2024 £'000	2025 £'000	2024 £'000
Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu	24,869	16,903	24,869	16,903
Llog a dalwyd	(2,791)	(2,589)	(2,791)	(2,589)
Llog a dderbyniwyd	350	717	350	717
Trethiant a dalwyd	-	-	-	-
	22,428	15,031	22,428	15,031
Addasiadau ar gyfer ailfuddsoddi mewn eiddo				
Datblygu ac amnewid cydrannau	(40,535)	(20,877)	(40,535)	(20,877)
Prynu asedau sefydlog amnewid eraill	(606)	(413)	(606)	(413)
	(41,141)	(21,291)	(41,141)	(21,291)
Arian parod rhydd (a ddefnyddiwyd)/a gynhyrchwyd cyn ad-daliadau benthyciad	(18,713)	(6,260)	(18,713)	(6,260)
Benthyciadau a ad-dalwyd (ac eithrio credyd cylchol a gorddrafftiau)	-	-	-	-
Arian parod rhydd a gynhyrchwyd / (a ddefnyddiwyd) ar ôl ad-daliadau benthyciad	(18,713)	(6,260)	(18,713)	(6,260)

c. Cysoni mewnlif arian parod net â'r symudiad mewn dyled net

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2025 £'000	2024 £'000	2025 £'000	2024 £'000
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod	(2,664)	(1,441)	(2,664)	(1,441)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn benthyciadau	9,306	1,035	9,306	1,035
Gostyngiad/(Cynnydd) mewn dyled net	6,643	(407)	6,643	(407)
Dyled Net ar 1 Ebrill 2024	91,827	92,232	91,825	92,230
Dyled Net ar 31 Mawrth 2025	98,471	91,825	98,469	91,824

d. Dadansoddiad o ddyled net

	Arian parod yn y banc ac mewn llaw £'000	Benthyciadau sy'n ddyledus ymhen llai na blwyddyn £'000	Benthyciadau sy'n ddyledus ymhen mwy na blwyddyn £'000	Newidiadau i ddyled net £'000
Y Grŵp				
Ar 1 Ebrill 2024	22,581	300	68,945	91,825
Llifoedd arian parod net	(2,664)	(300)	8,939	5,976
Ar 31 Mawrth 2025	19,917	-	77,884	97,801
Y Gymdeithas				
Ar 1 Ebrill 2024	22,579	300	68,945	91,824
Llifoedd arian parod net	(2,664)	(300)	8,939	5,976
Ar 31 Mawrth 2025	19,915	-	77,884	97,799

22. Trafodion Partion Cysylltiedig

Mae CBSRhCT yn barti i'r Cytundeb Trosglwyddo a sefydlodd y Grŵp ac mae ganddo'r hawl i enwebu hyd at ddau aelod i'r Bwrdd. Gwasanaethodd dau gynrychiolydd o'r cyngor fel aelodau yn ystod y flwyddyn. Ni roddir cydnabyddiaeth ariannol i gynrychiolwyr y cyngor.

Ystyrir bod Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn barti cysylltiedig fel darparwr pensiwn buddion diffiniedig ar gyfer Trivallis. Mae manylion ynglŷn â thrafodion â'r Gronfa Bensiwn wedi'u cynnwys yn nodyn 24 i'r cyfrifon.

Personél rheoli allweddol

Ystyrir bod y Bwrdd a'r Tîm Rheoli Gweithredol yn bersonél rheoli allweddol, ynghyd â Chyfarwyddwyr is-gwmnïau. Datgelir cydnabyddiaeth ariannol yr unigolion hyn yn nodyn 6 i'r cyfrifon.

23. Cytundeb Lloches TAW / Datblygu y Grŵp a'r Gymdeithas

Lluniodd Trivallis gytundeb cyd-ddigwyddiad lloches TAW ar ddyddiad trosglwyddo'r stoc dai o CBSRhCT i gynnal rhestr gytunedig o waith adnewyddu i'r eiddo. Roedd y gwaith hwn yn werth £359 miliwn. Cafodd y gost i CBSRhCT o gontractio ar gyfer gwneud y gwaith hwn ei gwrthbwysu yn erbyn cynnydd cyfartal ym mhris prynu'r stoc a dalwyd gan Trivallis. Nid yw'r trafodyn hwn wedi'i adlewyrchu yn y datganiadau ariannol yn unol ag FRS102, gan adrodd ar sylwedd trafodion yn hytrach na'r ffurf gyfreithiol.

Ar adeg y cytundeb, yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cwblhau'r cylch cyntaf o waith adnewyddu i'r stoc dai a drosglwyddwyd oedd 15 mlynedd. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn yn parhau a disgwylir iddo fod yn agos i'w gwblhau erbyn 2028. Rydym wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i CThEF ein bod yn disgwyl i waith Lloches TAW barhau am 5 mlynedd arall, ac mae CThEF wedi derbyn hyn yn ddiamod. Fel y cyfryw, mae'r amserlen wreiddiol wedi cael ei hymestyn ac, fel y manylir yn Nodyn

20, disgwylir y bydd £76 miliwn arall o wariant ar waith cymwys yn ystod y 5 mlynedd ychwanegol. Cydnabyddir y gwaith a gontractiwyd wrth iddo gael ei wneud, yn unol â'r polisi cyfrifyddu ar gyfer atgyweiriadau mawr, cylchol ac ymatebol. Os na fydd Trivallis yn cwblhau'r gwaith a bennwyd, gellir terfynu'r cytundeb datblygu heb golled ariannol i Trivallis.

24. Pensiynau'r Grŵp a'r Gymdeithas

Cyflwyniad

Mae'r datgeliadau isod yn ymwneud â'r rhwymedigaethau a ariennir yng Nghronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (y "Gronfa") sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (yr "LGPS").

Mae'r LGPS yn gynllun buddion diffiniedig a ariennir lle mae buddion a enillwyd hyd at 31 Mawrth 2014 yn cael eu seilio ar gyflog terfynol. Mae buddion a enillir ar ôl 31 Mawrth 2014 yn cael eu seilio ar gynllun Enillion wedi'u Hailbrisio Cyfartaledd Gyrfa. Amlinellir manylion y buddion a enillwyd ar hyd y cyfnod sydd dan sylw yn y datgeliad hwn yn 'Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013' a 'Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygio) 2014'.

Trefniadau Ariannu/Llywodraethu yr LGPS

Mae'r ffaith bod yr LGPS yn cael ei ariannu yn golygu bod rhaid i gyflogwyr sy'n cymryd rhan a'u cyflogeion dalu cyfraniadau i'r Gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi gydbwyso'r rhwymedigaethau pensiwn ag asedau buddsoddi. Amlinellir gwybodaeth am y fframwaith ar gyfer cyfrifo cyfraniadau sydd i'w talu yn Rheoliadau LGPS 2013 a Datganiad Strategaeth Ariannu'r Gronfa. Cynhaliwyd y prisiad actiwaraid diwethaf ar 31 Mawrth 2022 ac mae'r cyfraniadau sydd i'w talu hyd at 31 Mawrth 2026 sy'n deillio o'r prisiad hwnnw wedi'u hamlinellu yn Nhystysgrif Cyfraddau ac Addasiad y Gronfa.

Mae Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yn gyfrifol am lywodraethu'r Gronfa.

Asedau

Mae'r asedau a ddyrennir i'r Cyflogwr yn y Gronfa yn dybiannol a thybir y cânt eu buddsoddi yn unol â buddsoddiadau'r Gronfa at ddibenion cyfrifo'r adenillion ar hyd y cyfnod cyfrifyddu. Mae'r Gronfa'n dal cyfran sylweddol o'i hasedau mewn buddsoddiadau hylifol. O ganlyniad, ni fydd cyfyngiad sylweddol ar realeiddio asedau os bydd angen i swm mawr gael ei dalu o'r Gronfa mewn perthynas â rhwymedigaethau cyflogwr. Buddsoddir yr asedau mewn amrediad amrywiol o fuddsoddiadau, a dangosir y rhaniad asedau bras ar gyfer y Gronfa gyfan (yn seiliedig ar ddata a gyflenwyd gan Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa) yn y datgeliadau.

Caiff Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa fuddsoddi cyfran fach o fuddsoddiadau'r Gronfa yn asedau rhai o'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa os yw'n rhan o'i strategaeth fuddsoddi gytbwys.

Risgiau sy'n gysylltiedig â'r Gronfa mewn perthynas â chyfrifyddu

Anwadalrwydd asedau

Cyfrifir y rhwymedigaethau a ddefnyddir at ddibenion cyfrifyddu gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt a osodir gan gyfeirio at arenillion bondiau corfforaethol ar y dyddiad cyfrifyddu. Os bydd asedau'n tanberfformio, bydd yr arenillion hyn yn creu diffyg yn y cyfrifon. Mae'r Gronfa'n dal cyfran sylweddol o asedau twf, ac er y disgwylir i'r rhain berfformio'n well na bondiau corfforaethol yn y tymor hir, maen nhw'n creu anwadalrwydd a risg yn y tymor byr mewn perthynas â'r ffigurau cyfrifyddu.

Newidiadau i arenillion bondiau

Bydd gostyngiad mewn arenillion bondiau corfforaethol yn cynyddu'r gwerth a osodir ar y rhwymedigaethau at ddibenion cyfrifyddu, er y bydd hyn yn cael ei wrthbwysu ychydig gan y cynnydd yn yr asedau o ganlyniad (i'r graddau y mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn bondiau corfforaethol).

Risg Chwyddiant

Mae'r rhan fwyaf o'r rhwymedigaethau pensiwn wedi'u cysylltu â naill ai chwyddiant cyflogau neu chwyddiant prisiau. Bydd disgwyliadau chwyddiant uwch yn arwain at werth rhwymedigaeth uwch. Nid yw'r asedau'n cyd-fynd yn berffaith â chwyddiant, sy'n golygu y bydd cynnydd mewn chwyddiant yn cynyddu'r diffyg.

Disgwyliad oes

Mae'r rhan fwyaf o rhwymedigaethau'r Gronfa ar gyfer darparu buddion ar hyd oes yr aelod ar ôl ymddeol, felly bydd cynnydd mewn disgwyliad oes yn arwain at gynnydd yn y rhwymedigaethau.

Cyflogwyr presennol

Mae'n bosibl y bydd rhaid i gyflogwyr sy'n gadael y Gronfa (neu eu gwarantwr) dalu tâl ymadael i fodloni unrhyw ddiffyg mewn asedau yn erbyn eu rhwymedigaethau pensiwn. Os nad yw'r cyflogwr (neu'r gwarantwr) yn gallu talu'r tâl ymadael hwn, fe allai'r rhwymedigaeth gael ei throsglwyddo i'r cyflogwyr eraill yn y Gronfa, mewn rhai amgylchiadau. Yn ogystal, wrth edrych yn ôl, mae'n bosibl na fydd yr asedau wrth ymadael mewn perthynas â 'rhwymedigaethau amddifad' yn ddigonol i fodloni'r rhwymedigaethau. Fe allai'r risg hon gael ei throsglwyddo i gyflogwyr eraill. Mae 'rhwymedigaethau amddifad' yn gyfran fach o'r rhwymedigaethau cyffredinol yn y Gronfa ar hyn o bryd.

Cyfraniadau yn y dyfodol

Amcangyfrifir bod cyfraniadau cyflogwr rheolaidd i'r gronfa ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2026 yn £2,893,030.27. Yn ogystal, efallai y bydd angen straen ar gyfraniadau cronfa. Mae costau straen yn berthnasol pan fydd gweithiwr yn cyrchu ei gronfa bensiwn yn gynharach na'i ddyddiad ymddeol arferol.

Tybiaethau

Prif ragdybiaethau ariannol

Cynhaliwyd y prisiad actiwaraid llawn diwethaf o'r gronfa ar 31 Mawrth 2024. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwariaid cymwysedig annibynnol wrth ddiweddarau'r prisiad diweddaraf o'r gronfa at ddibenion FRS 102 oedd:

	31 Mawrth 2025 (% y flwyddyn)	31 Mawrth 2024 (% y flwyddyn)
Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)	2.5	2.6
Cyfradd cynnydd tymor hir cyffredinol mewn cyflogau	3.75	3.85
Cyfradd cynnydd i bensiynau sy'n cael eu talu	2.5	2.6
Cyfradd cynnydd i bensiynau gohiriedig	2.5	2.6
Cyfradd ddisgownt	5.8	4.8

Prif ragdybiaethau demograffig

Marwolaeth ar ôl ymddeol

Gwrywod

	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2024
Tabl sylfaenol	lechyd arferol SAPS Safonol – pob swm (S1NMA)	lechyd Arferol SAPS Safonol – pob swm l (S1NMA)
Graddio i gyfraddau uwch na'r tabl sylfaenol	100%	100%
Ffactorau gwella'r garfan (o 2007)	CM12012	CM12012
Hyd oes yn y dyfodol o 65 oed (65 oed ar hyn o bryd)	20.9	21.0
Hyd oes yn y dyfodol o 65 oed (45 oed ar hyn o bryd)	21.8	22.3

Menywod

	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2024
Tabl sylfaenol	lechyd arferol SAPS safonol – pob swm (S1NFA)	lechyd arferol SAPS safonol – pob swm (S1NFA)
Graddio i gyfraddau uwch na'r tabl sylfaenol	95%	95%
Ffactorau gwella'r garfan (o 2007)	CM12012	CM12012
Hyd oes yn y dyfodol o 65 oed (65 oed ar hyn o bryd)	23.7	23.8
Hyd oes yn y dyfodol o 65 oed (45 oed ar hyn o bryd)	24.8	25.2

Mae'r tybiaethau marwolaeth wedi'u seilio ar brofiad marwolaeth gwirioneddol aelodau o'r Gronfa yn seiliedig ar ddadansoddiad a gynhaliwyd yn rhan o brisiad 2022 ac maen nhw'n caniatáu ar gyfer gwelliannau i gyfraddau marwolaeth yn y dyfodol. Dangosir disgwyliadau oes enghreifftiol ar 65 oed sy'n deillio o'r tybiaethau marwolaeth hyn uchod.

Mae Trivallis yn defnyddio ymagwedd blociau adeiladu wrth bennu'r gyfradd adenillion ar asedau'r gronfa. Astudir marchnadoedd hanesyddol a thybir bod asedau mwy anwadal yn cynhyrchu adenillion uwch yn gyson ag egwyddorion marchnad gyfalaf a dderbynnir yn gyffredinol. Amlinellir y rhaniad asedau isod.

Amlinellir y rhaniad asedau isod:

	Rhaniad asedau ar 31 Mawrth 2025 (%)	Rhaniad asedau ar 31 Mawrth 2024 (%)
Ecwitiâu	65.1	64.0
Eiddo	6.1	6.5
Bondiau'r llywodraeth	10.9	12.2
Bondiau corfforaethol	14.7	15.6
Arall	2.7	1.3
Arian parod	0.5	0.4
Cyfanswm	100	100

Mae'r gyfradd adenillion ddisgwyliedig gyffredinol ar asedau yn cael ei deillio trwy gydgrynhoi'r gyfradd adenillion ddisgwyliedig ar gyfer pob dosbarth asedau ar hyd dyraniad gwirioneddol yr ased ar gyfer y gronfa ar 31 Mawrth 2023.

**Cysoni'r statws a ariennir â'r Fantolen – y Grŵp a'r
Gymdeithas**

Gwerth teg asedau
Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir
Atebolrwydd pensiwn net

Gwerth ar 31 Mawrth 2025 (£'000)	Gwerth ar 31 Mawrth 2024 (£'000)
104,280	101,650
64,740	74,970
39,540	26,680

**Dadansoddiad o'r tâl / (credyd) yn y Cyfrif Incwm a
Gwariant – y Grŵp a'r Gymdeithas**

Cost gwasanaeth cyfredol
Cost / (credyd) gwasanaeth blaenorol
Cost Cwtogi
Cost llog
Cyfanswm

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 (£'000)	Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 (£'000)
2,290	2,360
-	-
-	-
60	50
2,230	2,310

Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig

	Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 (£'000)	Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 (£'000)
Gwerth presennol agoriadol rhwymedigaethau	74,970	73,470
Cost gwasanaeth cyfredol	2,290	2,360
Traul llog ar rwymedigaeth buddion diffiniedig	3,580	3,360
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	990	920
*(Enillion) / colledion actiwaraidd ar rhwymedigaethau'r cynllun *	(14,960)	(3,030)
Buddion net a dalwyd #	(1,700)	(1870)
Cost Cwtogi	-	-
(Enillion)/colledion actiwaraidd o dan dybiaethau demograffig	(560)	(1,140)
(Enillion) / colledion actiwaraidd o ganlyniad i brofiad rhwymedigaeth	130	900
Cost / (credyd) gwasanaeth blaenorol	-	-
Gwerth presennol rhwymedigaethau wrth gau	64,740	74,970

* Yn cynnwys newidiadau i'r tybiaethau actiwaraidd.

Yn cynnwys llif arian parod net allan o'r gronfa mewn perthynas â'r cyflogwr, ac eithrio cyfraniadau ac unrhyw gyfandaliad marwolaeth mewn gwasanaeth a dalwyd, ac yn cynnwys lwfans bras ar gyfer cost ddisgwyliedig cyfandaliadau marwolaeth mewn gwasanaeth.

Newidiadau i werth teg asedau yn ystod y flwyddyn

	Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 (£'000)	Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 (£'000)
Gwerth teg agoriadol asedau	101,650	90,220
Incwm llog ar asedau	4,920	4,180
(Colledion) / enillion actiwaraidd ar asedau*	(3,970)	5,980
Cyfraniadau gan y cyflogwr	2,390	2,220
Cyfraniad gan gyfranogwyr	990	920
Buddion net a dalwyd #	(1,700)	(1,870)
Gwerth teg wrth gaus	104,280	101,650

* Yn cynnwys newidiadau i'r tybiaethau actiwaraidd.

Yn cynnwys llif arian parod net allan o'r gronfa mewn perthynas â'r cyflogwr, ac eithrio cyfraniadau ac unrhyw gyfandaliad marwolaeth mewn gwasanaeth a dalwyd, ac yn cynnwys lwfans bras ar gyfer cost ddisgwyliedig cyfandaliadau marwolaeth mewn gwasanaeth.

Adenillion gwirioneddol ar asedau

	Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 (£'000)	Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 (£'000)
Incwm llog ar asedau	4,920	4,180
Enillion actiwaraidd ar asedau	(3,970)	5,980
Adenillion gwirioneddol ar asedau	950	10,160

**Dadansoddiad o'r swm a gydnabyddir yn yr Incwm
Cynhwysfawr Arall ("OCI")**

Cyfanswm enillion actiwaraid

Cyfanswm enillion

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 (£'000)	Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 (£'000)
(160)	90
(160)	90

**Hanes gwerthoedd asedau, gwerth presennol
rhwymedigaethau a diffyg**

Gwerth teg asedau

Gwerth presennol rhwymedigaethau

Gwarged

Ar 31 Mawrth 2025 (£'000)	Ar 31 Mawrth 2024 (£'000)
104,280	101,650
(64,740)	(74,970)
39,540	26,680

Hanes colledion ac enillion profiad

(Colledion)/enillion profiad ar asedau

- Swm
- Canran yr asedau

(Colledion)/enillion profiad ar asedau

- Swm
- Canran gwerth presennol y rhwymedigaethau

Ar 31 Mawrth 2025 (£'000)	Ar 31 Mawrth 2024 (£'000)
39,540	26,680
37.92%	26.24%
130	900
0.1%	0.9%

25. Ymgymeriadau is-gwmni

Roedd y bwrdd o'r farn mai Trivallis oedd rhiant-ymgymeriad pennaf Porthcwlis Limited, sef cwmni cyfyngedig trwy warant, sy'n segur. Trivallis yw rhiant pennaf Cardiff Bay Homes LLP hefyd, gan berchen ar 98% yn uniongyrchol, ac mae'r 2% sy'n weddill ym mherchnogaeth Porthcwlis Limited.

26. Rhwymedigaeth ddigwyddiadol

Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol (EICR)/Deddf Rhentu Cartrefi Cymru (RHWA).

O ganlyniad i wall gweinyddol, roedd posibilrwydd bod Trivallis yn torri amod technegol o ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ar ddiwedd y flwyddyn. Mae camau unioni wedi cael eu cymryd i sicrhau nad ydym yn torri'r ddeddf mwyach. Mae achos cyfreithiol cyfredol yn parhau ac mae'r Gymdeithas yn cysylltu â Llywodraeth Cymru yn hynny o beth. Ar ôl cael cyngor cyfreithiol, rydym wedi asesu bod all-lif adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth bosibl hon yn dilyn yr achos llys yn llai na thebygol, ond (gan gydnabod yr ansicrwydd cynhenid mewn unrhyw anghydfod cyfreithiol) yn fwy na bychan. Mae lefel uchel o ansicrwydd yn parhau oherwydd bod y dehongliad o'r gofynion o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) yn amrywio rhwng gwahanol gynghorwyr cyfreithiol ac mae angen ei egluro, ac ni fydd hyn yn bosibl tan ar ôl i ddyfarniadau Llys gael eu cyhoeddi, felly ni ellir mesur yr effaith ariannol yn ddigon dibynadwy ar hyn o bryd.

Trivallis.

I wybod mwy, cysylltwch â ni ar:

 **03000 030 888**

 **enquiries@trivallis.co.uk**

Tŷ Pennant
Mill Street
Pontypridd
CF37 2SW